

Adolygiad blynyddol 2006-07



hawliau
tegwch
cynnwys
parch
lleisiau
gwranddo
dylanwadu
cefnogaeth
cyngor
siarad allan



Cynnwys

Rhif Tudalen

RHAGAIR

Gair wrth Maria Battle 2

ADRAN UN:

Cyflwyniad 3

ADRAN DAU:

Ein gwaith am y flwyddyn 5

Gwasanaeth cyngor a chefnogaeth 7

Newid pethau er gwell 10

ADRAN TRI:

Cadw plant a phobl ifanc yn rhan ganolog o beth rydym ni'n wneud 18

ADRAN PEDWAR:

Rhaglen waith ar gyfer y dyfodol 22

ADRAN PUMP:

Adolygiad o'r materion sy'n berthnasol i hawliau a lles plant a phobl ifanc 24

ADRAN CHWECH:

Gwybodaeth ariannol 34

Cofio Peter 38 a thudalennau canol

Rydym ni'n ddiolchgar unwaith eto i'r holl blant a phobl ifanc sydd wedi gweithio gyda ni yn ystod y flwyddyn, p'un ai fel aelodau o'n Grwpiau Ymgynghori, fel actorion yn ein DVD, fel dylunwyr celf ar y palmant, fel llysgenhadon ysgol, fel aelodau Atebnôl, fel newyddiadurwyr ifanc neu fel cyfranogwyr yn ein hymgyngoriadau, digwyddiadau neu adolygon.

Cyfeiriadau a manylion cyswllt:



Gellir cael yr adroddiad hwn mewn fformatau eraill pe gofynnir.

beth
yw ein
gwaith ...
...beth rydyn ni
wedi bod yn
ei wneud ...
...a beth rydyn
ni yn teimlo
bod angen ei
wneud...

Comisiynydd Plant Cymru

Tŷ Ystumllwynarth

Llys Siarter

Llansamlet

Abertawe

SA7 9FS

Ffôn: 01792 765600

Ffacs: 01792 765601

E-bost: post@complantcymru.org.uk

Children's Commissioner for Wales

Maenor Penrhos

Oak Drive

Bae Colwyn

Conwy LL29 7YW

Ffôn: 01492 523333

Ffacs: 01492 523336

E-bost: post@complantcymru.org.uk

Gwefan: www.complantcymru.org.uk

Produced by Carrick Business Services Ltd
www.carrickdesignprint.co.uk

Rhagair

Rydym ni'n falch mai Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i apwyntio comisiynydd plant annibynnol. Apwyntiwyd Peter Clarke gan y Prif Weinidog ar ôl iddo gael ei gyfweld gan blant a phobl ifanc, ac yn symbolaidd, cychwynnodd ei swydd ar Ddydd Gŵyl Dewi 2001.

Roedd Peter yn frwdfrydig dros hawliau plant ac roedd yn gefnogwr annibynnol go iawn a oedd yn lleisio'i farn ac yn amddiffyn holl blant a phobl ifanc Cymru.

Yn anffodus, yn dilyn cyfnod o salwch difrifol, bu farw Peter ym mis Ionawr 2007. Fe gyflawnodd llawer iawn, ac mae pawb yn ei golli'n fawr, y tîm y dewisodd i drawsnewid ei welediad i blant yn realiti. Rydym ni'n benderfynol o barhau â'i waith ac adeiladu ar y sylfaen gadarn y gosododd i ddiogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant Cymru.

Yn ei Adroddiad Blynyddol diwethaf, pryder mwyaf Peter oedd nad oedd digon o ddarpariaeth eirioli a chynghori i'r holl blant yng Nghymru. Rydym ni wedi parhau i wthio'n galed am wasanaethau o ansawdd sydd wedi eu datblygu'n dda, sydd ar gael ac sy'n hygyrch i'r holl blant yng Nghymru, fel y gallan nhw fynegi eu barnau a'u pryderon a bod ynghlwm mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Ni fyddwn ni'n gorffen nes caiff hyn ei gyflawni.

Amlygodd Peter annigonolrwydd gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc bob blwyddyn yn ei adroddiadau, gan sialensio'r llywodraeth i gael gwared â'r esgus o strategaeth, *Busnes Pawb*, os nad oedd yn barod i'w gyllido'n iawn. Mae plant yng Nghymru yn parhau i gael eu siomi gan ddarpariaeth CAMHS annigonol ag anghyson, sy'n arwain at ganlyniadau hirdymor iddyn nhw, eu teuluoedd a'r gymdeithas. Rydym ni'n cyhoeddi adroddiad o'n darganfyddiadau sy'n nodi'n glir y meysydd y mae CAMHS yn siomi plant ynddynt fwyaf, a pha weithred sydd angen ei gymryd ar unwaith.

Ers cychwyn datganoli, cafwyd ymrwymiad clir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i sefydlu systemau a strwythurau sy'n seiliedig ar hawliau plant, gan gynnwys wrth gwrs, sefydlu rôl Comisiynydd Plant Cymru. Nawr, y sialens fwyaf yw sicrhau bod y systemau, y strwythurau a'r polisiau hynny yn newid i fod yn ganlyniadau positif go iawn ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc ledled Cymru - gan gau'r bwlch rhwng polisi ac ymarfer. Yr unig adeg y bydd hawliau plant yn dod yn realiti yng Nghymru yw pan gaiff hyn ei gyflawni.

Mae hon wedi bod yn flwyddyn anodd i ni oll, ac mae pawb yn colli Peter yn fawr, ond hoffwn ddiolch i'r holl dîm am eu hymroddiad a'u cefnogaeth a'u gwaith caled, sydd yn deyrnged barhaus i Peter Clarke a'i ymrwymiad i blant a phobl ifanc Cymru.

Maria Battle

Dirprwy Comisiynydd Plant Cymru

Hydref 2007

parch dylanwadu
cynnwys
hawliau
gwrando



Adran 1

Beth yw ein nod... rôl, gorchwyl a gwaith Comisiynydd Plant Cymru

Comisiynydd Plant yw rhywun sy'n siarad dros blant a phobl ifanc a'u hawliau ac sy'n helpu i gryfhau a gwella'r systemau sydd yno i'w hamddiffyn nhw, a'u galluogi nhw i gyflawni eu potensial. Ystyrir gosod sefydliadau hawliau dynol annibynnol o'r fath ar gyfer plant yn angenrheidiol oherwydd:

- weithiau, mae hawliau plant yn cael eu hanwybyddu, neu'n cael eu hanghofio
- nad oes gan blant bŵer economaidd a gwleidyddol
- weithiau, nid yw plant yn cael beth maen nhw'u hangen
- mae plant yn gallu bod yn agored i niwed ac weithiau maen nhw mewn perygl

Crëwyd swydd Comisiynydd Plant Cymru – y cyntaf o'i math yn y DU – gan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Ehangodd Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 y gorchwyl, a sefydlodd brif nod y Comisiynydd, sef amddiffyn a hyrwyddo hawliau a lles plant yng Nghymru.

Peter Clarke oedd Comisiynydd Plant cyntaf Cymru a dechreuodd ei swydd ar Ddydd Gŵyl Dewi 2001. Cafodd ei apwyntio gan Brif Weinidog Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl cael ei gyfweild gan blant, pobl ifanc ac oedolion. Bu yn ei swydd tan y bu farw ar 21 Ionawr 2007. Trosglwyddwyd cyfrifoldebau, dyletswyddau a phwerau'r swydd drwy gyfraith i Maria Battle, y Dirprwy Gomisiynydd, nes y bydd olynnydd yn cael ei apwyntio gan y Prif Weinidog.

Beth mae Comisiynydd Plant Cymru a'r tîm yn gwneud?

Mae'r Comisiynydd a'r tîm:

- yn gwrando ar blant a phobl ifanc
- yn dweud wrth bobl sy'n gallu gwneud gwahaniaeth - fel gwneuthurwyr polisïau, darparwyr gwasanaethau a gwleidyddion – beth sydd angen newid
- yn darparu cyngor a chefnogaeth
- yn gwirio bod pobl yn gwneud eu gorau ar gyfer plant a phobl ifanc, yn eu cymryd nhw o ddifrif ac yn eu trin nhw gyda pharch
- yn sôn wrth bawb – gan gynnwys plant a phobl ifanc – am hawliau plant



Mae tîm y Comisiynydd Plant yn gweithio i helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru:

- yn ddiogel rhag niwed a thrais
- yn cael y cyfleoedd a'r gwasanaethau maen nhw'u hangen a'n haeddu
- yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi
- â llais yn eu cymunedau ac yn gallu chwarae rhan mor llawn â phosib mewn penderfyniadau sy'n effeithio arny'n nhw
- yn gwybod am eu hawliau ac am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae hyn yn cynnwys pawb o dan 18 mlwydd oed sydd fel arfer yn byw yng Nghymru. Fodd bynnag, gall y Comisiynydd Plant hefyd weithredu ar ran pobl ifanc hŷn os gofaliwyd amdany'n nhw gan awdurdod lleol. Os oes goblygiadau ar gyfer plant a phobl ifanc heddiw, gallwn ni hefyd archwilio pethau a ddigwyddodd i oedolion pan oedden nhw'n blant.

Nid yw'r gwaith wedi ei gyfyngu i beth yr ystyrir fel arfer yn faterion plant, fel iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Gallwn ni hefyd edrych ar bethau fel cynllunio, trafnidiaeth, yr amgylchedd, datblygiad economaidd a materion gwledig.

Beth mae'r gyfraith yn ddweud y gall Comisiynydd Plant Cymru wneud?

Gall y Comisiynydd:

- adolygu effeithiau polisiâu, polisiâu arfaethedig a dosbarthu gwasanaethau i blant
- archwilio achos plentyn neu blant arbennig yn fwy manwl os yw'n gysylltiedig â mater a fyddai'n cael effaith gyffredinol ar fywydau plant yng Nghymru
- ofyn am wybodaeth gan asiantaethau neu bobl sy'n gweithredu ar eu rhan, a gofyn am dystion i roi tystiolaeth ar lw

- ddarparu cyngor a chymorth i blant a phobl ifanc, ac eraill sy'n pryderu am eu hawliau a'u lles.

Mae gan y Comisiynydd bŵer pwysig ychwanegol hefyd, sef ystyried a gwneud argymhellion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am unrhyw fater sy'n effeithio ar hawliau a lles plant Cymru.

Mae'r Comisiynydd Plant yn ymrwymedig i'r canlynol:

- i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gwybod ble mae'r swyddfeydd a sut i gysylltu â nhw
- i annog plant i ddod mewn cysylltiad
- i ofyn wrth blant beth maen nhw'n meddwl am y gwaith a'r gwaith ar gyfer y dyfodol, a'u galluogi nhw i ddylanwadu ar y rhaglen waith
- i sicrhau bod staff yn mynd i gwrdd â phlant ble bynnag y maen nhw
- i dalu sylw arbennig i blant sy'n 'anodd eu cyrraedd', sy'n fregus, sy'n dioddef o waharddiad cymdeithasol neu sy'n cael eu hymyleiddio mewn rhyw ffordd.
- i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a rhoi ystyriaeth iddo ym mhopeth rydym ni'n gwneud.

Mae staff wedi'u lleoli mewn swyddfeydd yn Abertawe a Bae Colwyn, ond maen nhw'n gweithio ar draws Cymru.

Hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi y dylai Comisiynydd Plant Cymru roi ystyriaeth i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ym mhopeth rydym ni'n gwneud. Byddai gweithdai a chyflwyniadau i blant a phobl ifanc neu'r rhai hynny sy'n gweithio gyda nhw yn anghyflawn os na fyddai rôl y Comisiynydd yn cael ei egluro yng nghyd-destun hawliau dynol plant a phobl ifanc.

Rydym ni'n hyrwyddo'r CCUHP a hawliau plant mewn sawl ffordd. Rydym ni'n annog ymwybyddiaeth o'r egwyddorion sy'n tanategu'r confensiwn ymysg y rhai hynny sy'n darparu gwasanaethau i blant a'r rhai hynny sy'n gyfrifol am feysydd polisi sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'r hawl i gael eich gwarchod, cael darpariaeth a chael cymryd rhan yn ganolog i'n ffordd o ymdrin â chyngor a chefnogaeth. Mae gweithgareddau neu waith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc a'r rhai hynny sy'n gweithio gyda nhw bob amser yn seiliedig ar hawliau ac ar y CCUHP.

"Dylai bwlio cael ei gymryd o ddifrif"



Adran 2

Ein gwaith am y flwyddyn...

Gwneud defnydd da o'r pwerau cyfreithiol

Gellir cymharu'r pwerau a osodwyd yn y ddeddfwriaeth a sefydlodd Comisiynydd Plant Cymru gyda'r offerynnau sydd eu hangen i gyflawni'r swydd. Nid yw'r holl offerynnau yn y bocs offeryn yn cael eu defnyddio bob dydd ond mae'r gweithgareddau a'r rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn yn golygu bod y pwerau cyfreithiol yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn amlinellu beth sydd angen i'r Comisiynydd a'r tîm wneud i fod yn hyrwyddwyr gwybodus ar ran plant a phobl ifanc.

Er bod llawer o bwerau ar gael, mae hefyd pethau na fedrwn ni wneud – er enghraifft, ni fedrwn ni archwilio unrhyw fater cyn belled â'i fod yn rhwym wrth weithrediadau cyfreithiol neu os ydych chi wedi cael ei benderfynu gan lys neu dribiwnlys. Rydym ni'n ystyried nawr pa bwerau eraill y mae'r Comisiynydd eu hangen: er enghraifft, nid ydym ni'n gallu defnyddio ein hofferynnau yn y meysydd sydd heb gael eu datganoli, fel cyfiawnder ieuencid, a lloches a mewnfudo.

Darparu cyngor a chefnogaeth

Gall Comisiynydd Plant Cymru ddarparu cyngor a chefnogaeth i blant er mwyn eu hysbysu nhw o'u hawliau a'u helpu nhw i fynegi eu barnau a'u dymuniadau. Gallwn ni hefyd ddarparu cyngor a gwybodaeth i unrhyw berson sy'n pryderu am hawliau a lles plant. Gallwn ni helpu plant a phobl ifanc sy'n teimlo nad yw eu hawliau wedi cael eu cymryd o ddifrif neu eu parchu.

Darperir y gwasanaeth yma gan dîm amlddisgyblaethol a gaiff ei gefnogi gan arbenigedd o ledled y gymdeithas a gan gyngor arbenigol gan arbenigwyr allanol. Mae achosion cyngor a chefnogaeth yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn amlinellu beth sydd raid i'r Comisiynydd a'r tîm wneud i fod yn gefnogwyr gwybodus am blant a phobl ifanc. Mae dadansoddi beth aeth o'i le ar gyfer un person ifanc yn rhoi mewnwelediad sy'n darparu gwybodaeth i ni ar gyfer cyfrannu at drafodaeth fwy cyffredinol, ymateb i ymgynghoriad neu ymgyrch benodol, a'n helpu i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwaith pellach.



Ein gwasanaeth rhadffôn a thecstio di-dâl: eich llais, eich dewis, eich bywyd

Yn ystod 2006-07, fe wnaethom ni baratodau ar gyfer lansio ein gwasanaeth Rhadffôn a thecstio di-dâl i blant a phobl ifanc. Mae gennym ni sawl cefnogwr enwog, gan gynnwys Tanni Grey Thompson a Gethin Jones. Fe helpodd ein Grwpiau Ymgynghorol Pobl Ifanc ni i gynllunio a chynnal y digwyddiad, ac fe helpon nhw i ddatblygu'r deunyddiau hyrwyddo, y DVD a'r taflenni. Dyluniwyd celf ar y palmant gan bobl ifanc mewn trefi ar draws Cymru i gyd-daro gyda'r lansiad, ac ysgrifennodd newyddiadurwyr ifanc erthyglau am bwysigrwydd hawliau plant ac am bwysigrwydd cael Comisiynydd.

Fe gynhaliom ni berfformiad cyntaf y byd o'n DVD dweithiog yn y lansiad, sy'n egluro beth rydym ni'n gwneud. Bydd y DVD a'r pecyn gwybodaeth yn cael eu dosbarthu i'r holl ysgolion uwchradd yng Nghymru.

Sut mae'r gwasanaeth yn gweithio

Rydym ni'n gwrandao ar alwyr, ac yn siarad gyda'r plentyn neu'r person ifanc cyn gynted â phosib os yw oedolyn wedi galw ar eu rhan. Gallwn ni gyfarfod wyneb yn wyneb gyda phlant a phobl ifanc sy'n cysylltu â'r swyddfa i'n helpu ni i gael darlun gwell o'u sefyllfa. Ein nod yw canolbwyntio ar gael ateb - trafod, hwyluso cyfathrebiad, mynychu cyfarfodydd, cyfryngu neu eirioli yn ôl yr angen. Bydd ein hymyrraeth yn fwy ffurfiol mewn rhai achosion; defnyddio ein pwerau statudol er enghraifft, drwy gynnal adolygiad ymchwiliol.

Gweithwyr cefnogol gwirfoddol

Mae rhaglen recriwtio gwirfoddolwyr wedi cael ei chysylltu â'r rhif Rhadffôn newydd a'r gwasanaeth tecstio di-dâl. Mae'r gweithwyr cefnogol gwirfoddol yn rhan o'r tîm cyngor a chefnogaeth ac roedd pobl ifanc o'n grwpiau ymgynghori ynghlwm yn y cyfweiliadau recriwtio. Mae gweithwyr cefnogol gwirfoddol yn tarddu o amryw o gefndiroedd gan gynnwys ChildLine, Y Samariaid ac o amryw o oedranau a diwylliannau gwahanol.

"Nawr fy mod i wedi pasio'r hyfforddiant eang, mae'n wych cael profiad ymarferol Mae'n wych bod yn rhan o sefydliad gweithgar, croesawgar sydd wedi gwneud cymaint o wahaniaeth mewn cyfnod byr o amser."

Karen, gweithiwr cefnogol gwirfoddol

Achos enghreifftol

Cysylltodd mam Lowri â ni oherwydd bod Lowri, yr oedd ei hanawsterau ymddygiad yn destun asesiad statudol, yn cael trafferth yn yr ysgol. Ffoniodd ei mam ni oherwydd ei bod wedi syrffedu ar dderbyn cais i gasglu ei merch o'r ysgol 'iddi gael ymdawelu am rai dyddiau', a chael ar ddeall na fyddai hynny'n cael ei nodi ar ei chofnod ysgol. Fe wnaethom ni ffonio'r ysgol a'u hatgoffa bod hynny'n anghyfreithlon a'u bod, trwy beidio â chofnodi'r gwaharddiadau hyn, yn colli tystiolaeth ddefnyddiol a fyddai'n cefnogi eu cais am gefnogaeth ychwanegol.




Achos enghreifftol

Derbyniodd Jacob ddiagnosis o anghenion addysgol arbennig yn hwyr iawn. Ffoniodd ei fam ni oherwydd nad oedd yn derbyn y gefnogaeth a ddylai yn yr ysgol, ac felly roedd wedi cael ei wahardd yn rheolaidd. Roedd yn awr yn chwilio am leoliad preswyl arbenigol ôl-16. Fe wnaethom ni helpu trwy sicrhau bod yr awdurdodau'n ymwybodol o ddymuniadau a theimladau Jacob ac yn ei gefnogi ef a'i deulu i wneud cais am leoliad. Mae Jacob yn awr yn mynd i goleg y mae'n fodlon arno, ac sy'n gallu ymateb i'w anghenion.


Rhai ffeithiau a ffigyrau

Yn ystod 2006-07, fe ddeliodd y gwasanaeth cyngor a chefnogaeth gyda 487 o achosion. O'r rhain, cyfeiriwyd 43 yn ystod y cyswllt cyntaf, ac yn dilyn hynny, cynorthwywyd llawer yn rhagor i gysylltu ag asiantaethau neu ffynonellau cymorth a chefnogaeth eraill.

Cyngor a chefnogaeth 2006-07: Rhyw y plentyn neu'r person ifanc




Cyngor a chefnogaeth 2006-07: Oedran a rhyw plant sy'n cael mynediad i wasanaethau (ble y gwyddir)



Mae'r rhan fwyaf o'r rhai hynny sy'n cysylltu â ni am gyngor a chefnogaeth yn gwneud hyn dros y ffôn, er bod cynnydd wedi bod yn y nifer sy'n defnyddio e-bost. Mae datblygiad y gwasanaethau rhadffôn a thecstio di-dâl i blant a phobl ifanc yn debygol o effeithio ar y ffordd y bydd pobl yn cysylltu â ni yn y dyfodol, ac rydym ni'n disgwyl i'r ffaith ein bod ni'n hyrwyddo cyngor@complantcymru.org.uk ar ein taflenni a'n posteri arwain at fwy o achosion yn ein cyrraedd drwy e-bost.

"Dwi mor falch ein bod ni wedi gofyn am eich help. Gwnaeth fydd o wahaniaeth wrth i ni geisio ateb boddhaol i'r problemau roeddwn yn eu hwynebu."

Cyngor a chefnogaeth 2006-07: Sut y gwnaethpwyd y cysylltiad cychwynnol




Achos enghreifftol

Anfonodd David neges destun atom yn dweud ei fod am gael cyngor heb orfod siarad â neb. Mae David yn 16 oed ac yn teimlo'n isel am ei sefyllfa gartref. Buom ni'n cyfathrebu â David trwy anfon negeseuon testun am sawl diwrnod nes ei fod yn barod i dderbyn ein cyngor a siarad â gwasanaeth cwnsela lleol. Bythefnos yn ddiweddarach, cawsom ni neges destun oddi wrth David yn dweud ei fod yn dod ymlaen yn dda.

"Gwnaeth fydd o wahaniaeth ein bod yn gallu defnyddio 'ch enw a dweud eich bod yn ymwybodol o'n amgylchiadau. DIOLCH YN FAWR!"

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, rhiant, gofalwr neu'r teulu estynedig sydd fel arfer yn cysylltu â ni gyntaf. Mae oedolion proffesiynol fel eiriolwyr, athrawon a gweithwyr iechyd hefyd yn cysylltu â ni. Fodd bynnag, dywedir bob amser wrth oedolion ein bod ni'n gweithredu ar ran y plant, a byddwn ni'n datblygu unrhyw weithred o ganlyniad i'w lles, eu dymuniadau a'u teimladau nhw.

Cyngor a Chefnogaeth 2006-07: Pwy wnaeth y cysylltiad cychwynnol?



Cyfrinachedd

Rydym ni'n gwybod bod rhai o'r plant a phobl ifanc sy'n cysylltu â ni wedi colli ffydd yn yr asiantaethau statudol. Er mwyn eu hannog nhw i sôn wrthym ni am eu lles a lles plant eraill, yn enwedig y rhai hynny sydd mewn gofal, mae gennym ni lefel cyfrinachedd uwch na'r asiantaethau statudol, a'r unig bryd y byddwn ni'n rhannu gwybodaeth yw gyda chaniatâd y plentyn, neu os ydyn ni'n barnu bod plentyn neu blentyn arall mewn perygl difrifol. Byddwn ni'n hysbysu'r person ifanc os byddwn ni'n penderfynu gwneud hyn a'u cefnogi nhw yn ystod y broses ddilynol.

Prif faterion a thueddiadau

Materion	Nifer yr achosion Gellir dyrannu un achos ar gyfer mwy nag un mater	Canran o gyfanswm nifer yr achosion
Bwlio	61	13%
Amddiffyn Plant	13	3%
Addysg	268	55%
Amgylchedd	69	14%
Cyfraith Teulu	95	20%
Iechyd	81	17%
Tai	32	7%
Mewnfudo	20	4%
Gwasanaethau Cymdeithasol	110	23%
Cyfiawnder Ieuenctid	17	3%

Mae pryderon a chwynion unigol am addysg ag anghenion addysgol arbennig yn parhau i ddomineiddio llwyth gwaith y tîm cyngor a chefnogaeth, a dilynir hyn gan faterion gwasanaethau cymdeithasol a chyfraith teulu. Rydym ni hefyd wedi bod ynghlwm mewn achosion sy'n gysylltiedig ag iechyd, sy'n amlygu prinder darpariaeth a phroblemau ariannol mewn gofal iechyd yn y gymuned ar gyfer plant sydd ag anghenion iechyd cymhleth. Amlygir prinder darpariaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) unwaith eto eleni.

Mae gofynion am gyngor am hawliau plant yn cynnwys tai a chynllunio, cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau mewnfudo. Rydym ni hefyd wedi bod ynghlwm mewn sawl achos o fwlio. Gwelwyd achosion o fwlio mewn ysgolion gan amlaf, ond hefyd yn y gymuned. Mae effaith emosiynol bwlio ar blant a phobl ifanc wedi bod yn amlwg, gyda bwlio ffisegol ac mewn rhai achosion, bwlio seiber a hiliol.


Mae achosion tai yn cynnwys pobl ifanc dros 16 mlwydd oed mewn argyfwng ac sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd. Yn aml, mae ymatebion rhai awdurdodau lleol i alwadau am gymorth oddi wrth blant digartref yn eu harddegau yn gas ac yn ddigydymdeimlad; ac mewn un achos, dywedwyd wrth y person ifanc i'w heglu hi a chysgu ar y stryd.

" Mae cyngor ysgol yn peth dda oherwydd mae nhw yn gallu siarad am pethau dda a phroblemau a sut i gwella "

Cyngor a Chefnogaeth 2006/07:

Nifer yr achosion a ddyrannir ar gyfer pob categori

(Nodyn: gellir dyrannu achos unigol i fwy nag un mater mewn categori)





Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

Rydym ni'n parhau i dderbyn nifer uchel o alwadau gan rieni, mam-guod a thad-cuod a gofawyr maeth sy'n pryderu nad yw plant yn derbyn darpariaeth/lleoliadau addas i'w galluogi nhw i dderbyn addysg briodol. Mae rhieni/gofawyr yn parhau i deimlo mai'r unig ffordd i sicrhau asesiad anghenion llawn yw cael asesiad statudol sy'n arwain at ddatganiad o anghenion addysgol, sy'n gyfreithiol rwymol, ac sy'n amlinellu anghenion y plentyn yn glir, gan nodi'r ddarpariaeth/lleoliad sy'n ofynnol. Mae pryder cynyddol bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi llai o ddatganiadau wrth i gyllid AAA gael ei ddatganoli i ysgolion.

Gwaharddiadau Answyddogol

Mae plant sydd ag anawsterau ymddygiad, anghenion addysgol arbennig, ag anghenion ychwanegol mewn perygl o gael eu "gwahardd yn answyddogol" o'r ysgol, heb dderbyn amddiffyniadau'r llwybr ffurfiol a ddilynir wrth wahardd plant o'r ysgol. Rydym ni wedi bod yn pryderu am yr ymarfer yma. Bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2007.

Achos enghreifftol

8 oed yw Paula, ac mae ganddi lwybr anadlu cul a chyflwr ar y galon. Mae hefyd wedi cael traceotomi. Roedd hi wedi bod yn yr ysbyty am amser hir ac yn barod i fynd adref, ond doedd y pecyn Gofal Parhaus ddim yn ddigonol i ganiatáu hynny. Ffoniodd tad Paula ni, ac fe wnaethom ni gyflwyno'i hachos i'r Bwrdd Iechyd Lleol. Cytunwyd ar gyllid ar gyfer Gofal Parhaus.

Gofal Parhaol

Rydym ni wedi ymyrryd mewn sawl achos i gyflymu datblygiad mewn achosion ble mae plant wedi parhau i fod yn yr ysbyty oherwydd nad oedd trefniadau wedi cael eu gwneud i blant anabl a phlant gydag anghenion iechyd arbennig i dderbyn cefnogaeth yn y gymuned. Rydym ni hefyd wedi eirioli ar ran plant sydd eisoes yn y gymuned, ac sy'n gorfod disgwyl am ofal parhaol. Mae hyn yn achosi straen mawr i bobl sydd eisoes o dan bwysau sylweddol. Ni ddylai gohiriadau o'r fath ddigwydd.

Cyfraith Teulu

Mae aelodau o'r teulu, yn bennaf mam-guod a thad-cuod, wedi cysylltu â ni mewn amgylchiadau ble mae rhieni wedi gwahanu neu'n byw ar wahân. Yn aml, maen nhw'n anhapus gyda maint y cyswllt a'r trefniadau preswyl ar gyfer eu hwyrion a'u hwyresau. Rydym ni'n eu cynghori nhw i gysylltu â'u cynrychiolwyr cyfreithiol neu, os yn addas, y swyddog CAFCASS sy'n ymglymedig yn yr achos.

Newid pethau er gwell: gwaith polisi a dylanwadu

Mae'r ffordd y mae Comisiynwyr Plant yn gweithio yn fantais i lawer o blant. Mae dylanwadu ar ddatblygu polisi a phwyso am welliannau yn rhannau allweddol o'r rôl.

Rydym ni'n hyrwyddo argymhellion ein hadroddiadau ac yn edrych yn benodol ar p'un ai a yw plant a phobl ifanc wedi cael llais neu ynghlwm mewn cynigion a gwneud penderfyniadau. Rydym ni'n cynnal cysylltiadau gyda darparwyr eiriolaeth, sefydliadau anllywodraethol ar gyfer plant, Byrddau Iechyd Lleol drwy Gymru, a sefydliadau proffesiynol, yn ogystal â gyda grwpiau o ddiddordeb

arbennig ag adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff cyhoeddus Noddedig Llywodraeth y Cynulliad.

Yn ystod y flwyddyn, rydym ni wedi ymateb i ymgynghoriadau'r Cynulliad (ac eraill), gan selio ein galwadau ar wybodaeth a gasglwyd drwy ein cyfranogiad, ein gwaith cyngor a chefnogi a'n gwaith cyfathrebu, yn ogystal ag ar beth rydym ni'n credu sydd er lles gorau'r plant. Drwy gydol eleni, rydym ni wedi parhau i ymateb i ymgynghoriadau ar gyfarwyddyd drafft ac ymgymryd ag adolygon.

Ymatebion i Ymgynghoriad 2006-07

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Agenda Polisi Cymru

Dysgu drama: cyfarwyddyd i reolwyr ag athrawon drama ar ddiogelu plant ag amddiffyn plant (cyfarwyddyd yn deillio o argymhellion Archwiliad Clywch)

Diffinio Ysgolion yn ôl Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg

Dod at ein gilydd yng Nghymru: Strategaeth Oedolyn a Pherson Ifanc tuag at Leihau Aildroseddu

Nodyn Cyngor Technegol Mwynau Glo

Grant Llywodraeth Cynulliad Cymru i Drosglwyddo Rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3

Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer y Bwrdd Cyfiawnder Iechyd dros Loegr a Chymru.

Cydbwyllgor Hawliau Dynol (JCHR) – Adolygiad o Gomisiynwyr Plant

Gwaith a Theuluoedd: Dewis a Hyblygrwydd - Gwyliau a Thâl Tadolaeth Ychwanegol

Adolygiad o Bolisi ar Bêl-droed yng Nghymru Pwyllgor Chwaraeon, y Celfyddydau a Diwylliant, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ein Cynlluniau ar gyfer y Dyfodol – Ymddiriedolaeth Sylfaen, Ysbyty Great Ormond Street

Y Wlad sy'n Dysgu 2: Cadw'r Addewid

Ymgynghoriad ar Adroddiad Blynnyddol ESTYN 2005-2006

Dirprwyaeth o Gynigion ar Drefnu'r Ddarpariaeth 16-19 i Ymgynghoriadau Awdurdodau Lleol Trefniadau Etholiadol yng Nghymru

Adolygiad Polisi o Anghenion Addysgol Arbennig: Cam 3, Trosglwyddo: Holiadur Ymgynghori

Strategaeth Drafnidiaeth Cymru : Cysylltu Cymru Drafft o Nodyn Cyngor Technegol 22: Datblygu Cynllunio a Rheoli

Strategaeth TGCh ar gyfer ysgolion: papur cwmpasu Fframwaith Mesur Perfformiad: Ymgynghoriad ar Ddangosyddion Perfformiad 2007-2008

Ymgynghoriad ar Gyfarwyddyd Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol

Ymgynghoriad ar y Cwricwlwm Cenedlaethol

Ymgynghoriad ar Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Rheoliadau Perfformiadau Plant

Nodyn Cyngor Technegol 18 – Trafnidiaeth

Datgelu Camarfer mewn ysgolion

Ail-ganolbwyntio ar Strategaeth Gofalwyr Cymru

Tynnir y materion canlynol at sylw'r gwasanaeth cyngor a chefnogaeth, a chant eu datblygu ar lefel polisi:

- Ail-leoliad arfaethedig y gwasanaethau pediatriig o Ysbyty Cyffredinol Bronglais i Ysbyty Cyffredinol Treforys yn Abertawe.
- Gwasanaeth Awtistiaeth Trydyddol, Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro
- Cynnig ar gyfer diwygio Deddf Canolfannau Gweithgarwch (Diogelwch Pobl Ifanc) 1995 ac/neu reoliadau i roi pŵer a gofyn i'r Awdurdod Trwyddedu Gweithgareddau Antur i adolygu a rheoleiddio gweithdrefnau amddiffyn plant ag agweddau o ofal bugeiliol mewn canolfannau gweithgarwch.
- Clampio car gyda phlentyn sydd ag Anhwylder Sbectwm Awtistig yn y car
- Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr Iimousines didrwydded
- Canolfannau seibiant sydd â phroblemau cofrestru
- Pobl ifanc sydd ar wardiau iechyd meddwl i oedolion
- Cymryd olion bysedd disgyblion gan yr ysgolion
- Lleoliadau ôl-16 i blant sydd ag anghenion addysgu
- Ymgynghoriad ar gau ysgolion yng Nghaerdydd
- Cofrestru tai preswyl bychain i blant.

Roedd materion polisi gan ffynonellau eraill yn cynnwys pryderon am archwilio staff ysgol, ac ymgymryd â gwaith i sicrhau bod dysgu am y CCUHP yn cael ei gynnwys yng nghwricwlwm yr ysgol.



“ Mae bwlis yn dwp. ”

Adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Fe ymatebom ni i'r Ymgynghoriad ar y cwricwlwm cenedlaethol arfaethedig. Nododd fframwaith ddrafft Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh):

“Y dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wybod ac i ddeall:...

Eu hawliau a'u cyfrifoldebau h.y Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn.”

Fe wnaethon ni lwyddo i herio cysylltu'r cysyniad o hawliau â chyfrifoldebau, drwy ein hymateb i'r ymgynghoriad a drwy gyfarfod dilynol â swyddogion perthnasol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rydym ni wedi cael ein sicrhau na fydd fersiwn terfynol o'r Fframwaith ABCh yn cysylltu hawliau gyda chyfrifoldebau ac felly, bydd yn rhoi neges glir i athrawon a staff eraill yr ysgol bod gan bob plentyn hawliau heb orfod dangos cyfrifoldeb i ddechrau.

Strategaeth TGCh ar gyfer ysgolion a diogelwch y rhyngwrwyd

Fe ymatebom ni hefyd i'r strategaeth TGCh drafft i ysgolion, ac fe gwrddon ni gyda swyddogion perthnasol Llywodraeth y Cynulliad. Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad, fe godon ni faterion am bwysigrwydd dysgu plant ag oedolion i sicrhau eu bod nhw'n defnyddio technolegau newydd yn ddiogel. Rydym ni'n edrych ymlaen at weld y strategaeth ddiwygiedig yn hwyrach yn 2007, a gweld sut fydd hynny'n cyfrannu tuag at gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel wrth ddefnyddio technoleg.



Seminarau cyswllt iechyd

Yn ystod tymor yr hydref 2006, fe gynhalion ni gyfres o seminarau gyda'r swyddogion cyswllt dynodedig o'r holl Fyrddau Iechyd Lleol a'r Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol ar draws Cymru. Pwrpas y seminarau hyn oedd codi ymwybyddiaeth o broses adrodd y CCUHP a'r gwasanaeth cyngor a chefnogaeth i'r swyddogion cyswllt dynodedig. Cynigiwyd y swydd Swyddog Cyswllt Dynodedig yn Adroddiad Carlisle, *Peth Rhy Ddifrifol* ac felly, mae'r Swyddogion Cyswllt Dynodedig yn gysylltiadau allweddol gan mai nhw yw'n prif bwyntiau cyswllt ar ymglymu plant a phobl ifanc. O ganlyniad i'r seminarau, cyfathrebwyd mwy gyda'r Swyddogion Cyswllt Dynodedig, ac mae adroddiad wedi cael ei ddsbarthu i'r holl Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru.

Ymddygiad rhywiol niweidiol

Yn ystod tymor yr haf a thymor yr hydref 2006, fe ysgrifennom ni at bob Pwyllgor Diogelu Plant Ardal (ACPC) yng Nghymru ac fe eglurwyd yn glir ein bod ni'n ystyried yr opsiynau triniaeth ag asesu sydd ar gael i blant a phobl ifanc sydd ag ymddygiad rhywiol niweidiol yn fater hawliau plant. Gofynnwyd am wybodaeth ynghylch y gwasanaethau a'r adnoddau oedd ar gael gan yr ACPC i blant a phobl ifanc a oedd yn destun ymgynghoriad, a oedd yn cydnabod ymddygiad rhywiol niweidiol.

Yn ogystal, fe godom ni'r mater gyda phob Bwrdd Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru. Ar ôl dadansoddi'r wybodaeth honno, rydym ni mewn sefyllfa i ddarparu tystiolaeth i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn, yn ogystal â pharhau i fonitro'r ffordd y mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu comisiynu i'r grŵp bregus yma o bobl ifanc.

Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru

Mae ein gwaith gyda Thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (SENTW) wedi parhau dros y flwyddyn ddiwethaf. Roeddem yn hapus iawn i glywed y bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal gyda budd-ddeiliaid yn 2007 ar hawl y plentyn i apelio i'r Tribiwnlys. Derbyniwyd ymateb positif i'r cynnig gan gynrychiolwyr o awdurdodau addysg leol a grwpiau cymorth i rieni, ac rydym yn gobeithio y bydd hawl y plant i gael rhywun i wrando ar eu barnau ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau yn fuan yn cael ei weithredu'n llawn yng Nghymru.

“Ces i fy mwlio ond mae e wedi stopio nawr”

"Mae'n cyngor ysgol ni yn dda achos mae nhw'n trafod pethau gwahanol bob tro."

Monitro a hyrwyddo argymhellion a wnaethpwyd mewn adroddiadau

Datgan Pryderon ac 'Dydi plant ddim yn cwyno'...

Archwiliodd y ddau adroddiad yma'r trefniadau yn y gwasanaethau cymdeithasol a'r awdurdodau addysg leol un ar ôl y llall, ar gyfer cwynion plant ac eiriolaeth, a'r cyfleoedd i weithwyr adrodd camymddygiad yn gyfrinachol.

Rydym ni wedi cyfrannu tuag at ddatblygiad sylweddol mewn gweithredu'r argymhellion a gynhwysir yn y ddau adroddiad, yn enwedig Canllawiau i Gyrff Llywodraethu Ysgolion ynglŷn â Gweithdrefnau Cwyno yn ymwneud â Disgyblion – (Cylchlythyr Rhif: 39/2006 Cynulliad Cenedlaethol Cymru) a'r ymgynghoriad ar weithdrefnau datgelu camarfer a ddylai gael eu defnyddio yn yr ysgol.

Fe argymhellodd thema cyson sy'n rhedeg drwy ein hadroddiadau ac a gafodd ei ailadrodd yn 2006 yn *Ein Cadw'n Ddiogel*: adroddiad o'r Adolygiad o Ddiogelu Plant sy'n Agored i Niwed, y Cynulliad Cenedlaethol, y dylid sefydlu Uned Eiriolaeth ganolog i hyrwyddo a monitro ymarfer da a datblygu'r sector eirioli. Rydym ni wedi parhau i ymgynghu am Eiriolaeth Annibynnol a gaiff ei ariannu'n ganolog ar gyfer holl blant Cymru.



Adroddiad Clywch

Cafwyd datblygiad pellach mewn gweithredu'r argymhellion yn Adroddiad Clywch, a chaiff hyn ei drafod yn fanwl yn Adran 5.

Ond mod i'n cyrraedd yn sâff... (Bysus ysgol)

Hwyluswyd monitro argymhellion yn yr adroddiad yma gan i ni fynychu cyfarfodydd Pwyllgor Cludiant Trafnidiaeth Ysgol Cymru Gyfan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rheolaidd, ac fe gyfrannom ni i'r ymgynghoriad a arweiniodd at gyhoeddi'r cyfarwyddyd Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol ym mis Chwefror 2007.

Monitro Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Mae pedair swyddfa'r Comisiynydd Plant yn y Deyrnas Unedig yn cydweithio i gynhyrchu adroddiad ar gyfer Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ynghylch sut y mae'r CCUHP wedi cael ei weithredu yn y DU. Dyma'r tro cyntaf y bydd y Comisiynydd Plant yn gallu cyfrannu tuag at ystyriaeth y Pwyllgor o ddatblygiad y wlad ers y dilyswyd y CCUHP gan Lywodraeth y DU yn 1991.

Bydd ein gwaith yn cael ei fwydo i adroddiad y DU-cyfan, ond cydnabyddir datblygiad ym mhob un o wledydd y DU. Dewiswyd pymtheg mater allweddol, sy'n berthnasol i arsylwadau terfynol adroddiad olaf Pwyllgor y DU yn 2002, ag sydd hefyd yn gysylltiedig â materion sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith ac o beth mae plant a phobl ifanc wedi dweud sy'n bwysig iddyn nhw. Mae pob un o'r gweinyddiaethau datganoledig yn rhoi pwyslais gwahanol ar y CCUHP. O edrych ar yr amserlen gyfredol, disgwylir i'r pedwar Comisiynydd gyflwyno eu tystiolaeth i'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2008.

Dylanwadu a rhwydweithio

Ein nod yw dylanwadu a newid diwylliant o fewn sefydliadau a'r gymdeithas ehangach. Rydym ni'n cymryd rhan ac yn cyfrannu mewn rhwydweithiau a gweithgorau – yn aml gyda statws arsylwr i amddiffyn ein hannibyniaeth – a sicrhau ein bod ni'n dylanwadu datblygiadau ac yn cyflawni gwelliant yn gynnar ym mywyd menter polisi neu ymarfer gwaith. Gan fod gennym ni statws arsylwr ar lawer o weithgorau, mae hyn yn golygu ein bod ni'n gallu cadw golwg ar welliant a datblygiadau, ond hefyd, gwneud cynigion, er enghraifft, ynglŷn â sut y gallai gweithgorau helpu plant a phobl ifanc i gymryd rhan a chyfrannu. Rydym ni hefyd yn cyfrannu mewn nifer o rwydweithiau a grwpiau eraill sy'n gysylltiedig â'n gwaith.

Yn ystod 2006-07, roedd y grwpiau a'r rhwydweithiau yr oedden ni'n rhan ohonynt, neu yr oedd gennym ni statws arsylwr arnyn nhw, yn cynnwys y canlynol:

- Grŵp Monitro CCUHP Cyrff Anllywodraethol Cymru
- Rhwydwaith Gwrth-fwllo Cymru (a gaiff ei arwain gan LICC)
- Llinyn Tystiolaeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Grŵp Swyddogion Polisi Cymru Gyfan
- Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb
- Fforwm Ysgolion Annibynnol Estyn
- Grŵp Swyddogion Cwynion Cymru Gyfan
- ENOC (Rhwydwaith Ewropeaidd Ombwdsman ar gyfer Plant)
- Grŵp Llywio Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru
- 'Sdim Curo Plant! Cymru
- Grŵp Hollbleidiol y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal
- Addysg Llywodraeth y Cynulliad a Phlant sy'n Derbyn Gofal
- Cyngor Cyfiawnder Teulu De Cymru
- Stopiwch nawr
- Grŵp Llywio Concordat
- Cynllunio Gweithgor Plant
- Fforwm Gadael Gofal
- Grŵp Llywio Gwasanaethau Gofal Iechyd Arbenigol Plant a Phobl Ifanc
- Grŵp Defnyddwyr Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (SENTW)

- Rhwydwaith Ombwdsman a Chomisiynwyr Plant Prydain ac Iwerddon (BINOCC) gan gynnwys is-grwpiau ar gyfer Polisi, Cyfathrebu a Chyfranogi
- Grŵp Byw'n Iach y Cynulliad Cenedlaethol
- Gweithredwr Cenedlaethol Cysylltu â Theulu
- Fforwm Plant yng Nghymru ar gyfer Plant Anabl
- Grŵp Polisi Cymru ar gyfer Plant Anabl
- Cymdeithas Cyfreithwyr Cyfraith Gyhoeddus a Hawliau Dynol Cymru
- Gweithgor Cynllun Gweithredu Rhianta (monitro cyfarfodydd)
- Gweithgor Bod yn Rhieni Cu (is-grŵp o'r uchod)
- Gweithgor Brwydro yn Erbyn Ecsploetio Plant yn Rhywiol
- Grŵp De Cymru ar Gyfraith Mabwysiadu
- Grŵp Gweithredu ar Drawsnewidiadau (Cymdeithas Awtistig Cenedlaethol)
- Panel Arbenigol Hawliau Plant y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad
- Rhwydwaith Datblygu ar gyfer Gwasanaethau Gwybodaeth a Chyngor (DeNIAS)
- Trafodion Gofal Plant Grŵp Llywio'r Gweinidogion
- Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr
- Grŵp Arbenigol Cenedlaethol Cronfa Ddata Iechyd Plant yn y Gymuned (NCCHD)
- Partneriaeth Diogelwch TG
- Sefydliadau Pobl Ifanc Cymru Gyfan (AWYPO)
- Consortiwm Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru/Grŵp Llywio'r uned ac is-grwpiau
- Grŵp Llywio Cyfnewid Ymarfer De Cymru (Plant yng Nghymru wedi'i gynullio)
- Grwpiau Cyfnewid Ymarfer Hawliau Plant yng Nghymru yn y Gogledd a'r De
- Grŵp Gweithwyr Cyfranogiad – Gogledd Cymru (cyfarfod gweithwyr Fforwm Ieuenctid Gogledd Cymru gynt)
- Y Grŵp Cyngori a Gweithredu ar Gwynion a Sylwadau (CRAIG)
- Fforwm Polisi Amddiffyn Plant
- Cymdeithas Cyfraith Teulu Cymru
- Rhwydwaith Cyfreithiol Plant (DU)
- Tadolaeth Cymru
- Llwybr plant a theuluoedd troseddwyr y Strategaeth Genedlaethol ar Reoli Troseddwyr (NOMS)



Cysylltiadau'r Deyrnas Unedig ag Ewrop

Rhwydwaith Ewropeaidd Ombwdsman ar gyfer Plant (ENOC)

Sefydlwyd ENOC yn 1997 i uno comisiynwyr annibynnol ac ombwdsmyr i blant yn Ewrop i gryfhau eu hymdrechion i wella bywydau plant yn Ewrop. Roedd Peter Clarke yn gyn-lywydd ENOC ac rydym ni'n ymrwymedig i'w amcanion o weithredu'r CCUHP mor llawn â phosib drwy Ewrop gyfan. Eleni, cyhoeddwyd datganiad ar y cyd ar driniaeth plant sydd ar eu pen eu hunain ac sy'n edrych am loches yn Ewrop, a gofynnwyd am driniaeth hynaws. Ar hyn o bryd, rydym ni'n drafftio datganiad gyda'n gilydd ar hawliau plant sydd ag anableddau yn Ewrop. Mae'r rhwydwaith yn gyfle gwych i rannu gwybodaeth, dulliau a strategaethau, i gytuno ar safonau cyffredin ac i ddysgu o brofiad Comisiynwyr Plant ag Ombwdsmyr eraill.

Rhwydwaith Comisiynwyr Plant Prydain ac Iwerddon (BINOCC)

Mae'r rhwydwaith yma o'r Comisiynwyr i blant y DU a Gweriniaeth Iwerddon, a sefydlwyd fel is-bwyllgor ENOC, wedi creu llawer o fanteision i blant. Mae BINOCC yn cwrdd ar wahân i ENOC pob deufis. Mae'r Comisiynwyr a'u timau mewn cysylltiad rheolaidd, ac maen nhw'n trafod materion a dulliau. Mae hyn yn ein helpu ni i gydlyn gwaith a rhannu adnoddau a dysgu ar sail dydd i ddydd. Yn ogystal â chydweithio i fonitro'r CCUHP, mae BINOCC yn cyhoeddi datganiadau ag ymgyrchoedd ar y cyd ar faterion allweddol fel cosb ffisegol, gwneud cynrychioliadau i Lywodraeth y DU ac i Gyngor Ewrop. Mae adolygiad ar y cyd yn cael ei ystyried ar brofiadau plant o'r system cyfiawnder ieuenctid.

parch
dylanwadu
hawliau
gwranddo
cynnwys
dysgu

**YOUR VOICE
YOUR CHOICE
YOUR LIFE**

**EICH LLAIS
EICH DEWIS
EICH BYWYD**

Do you feel like you are trying to be heard and nobody is listening?

The Children's Commissioner can help. We are here for all children and young people who want to make sure that you get heard. Call us if you need advice or want to know more about your rights. We'll do our best to help - or put you in touch with someone who can.

Ydych chi'n ceisio cael eich dywed ond does neb yn gwranddo amoch chi?

Gall y Comisiynydd Plant eich helpu chi. Bydyn ni yma ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc ac am wneud yn siŵr bod eich ddi yn cael ei gilydd. Fflinwch ni os oes angen cyngor amoch neu os ydych chi'n wybod mwy am eich hawliau. Fe wneud ni'n gyswrtu i'ch helpu chi - neu eich rhoi mewn cysylltiad â rhywun all wneud.

**FREEPHONE AND FREETEXT
RHADFFON A RHADTECST**

TEL/FFÔN: 0808 801 1000

TEXT/TECST: 80800 Start your message with COM / Dechreuwch y neges gyda COM

EMAIL/EBOST: advice@childcomwales.org.uk cyngor@complantcymru.org.uk

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales



Yr adolygon a'r adroddiadau diweddaraf

Adroddiad yn dilyn archwiliad i waharddiadau answyddogol

Mae wedi dod yn fwy amlwg bod llawer o blant yn disgyn drwy'r ffynonellau cefnogaeth pan ofynnwyd i'w rheini a'u gofawyr eu cymryd nhw allan o'r ysgol. Yn aml, mae rhaid i ni ymyrryd i eirioli ar ran y plant cuddiedig yma sydd gartref drwy 'gytundeb' gyda'r ysgol. Nid oes dim byd yn wirfoddol am y 'gwaharddiadau gwirfoddol' yma gan fod ysgolion yn llawer mwy ymwybodol o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau cyfreithiol na rhieni a phlant. Yn aml, rhoddir pwysau ar rieni i dynnu eu plant o'r ysgol. Rydym ni'n eu galw nhw'n 'waharddiadau answyddogol' neu 'anghyfreithlon'. Cadarnhaodd asiantaethau eraill bod yr ymarfer yma'n digwydd yn gyson.

Mae gwaharddiadau answyddogol yn gallu, ac yn rhoi plant mewn perygl. Fe gomisiynon ni archwiliad i hanes gwaharddiadau answyddogol un person ifanc ac rydym ni wedi rhannu'r adroddiad cyn ei gyhoeddi gydag Adolygiad Ymddygiad a Phresenoldeb Cenedlaethol, Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rydym ni'n gobeithio y bydd yr adroddiad yn rhoi terfyn ar yr ymarfer o waharddiadau answyddogol, yn codi ymwybyddiaeth o'r angen am asesiad ac ymyrraeth ataliol yn ystod y cam cynharaf posib, ac y bydd plant, pobl ifanc a'u rhieni yn ymwybodol o'u hawliau mewn amgylchiadau o'r fath.

Rhywun i wrando, rhywbeth i'w wneud

Rydym ni wedi tynnu sylw'n aml at y ffaith bod llawer o bobl ifanc yn teimlo nad oes ganddyn nhw ddim byd i'w wneud ac nad ydyn nhw'n cael eu parchu yn eu cymunedau. Rydym ni hefyd wedi sylwi bod pobl ifanc, yn ogystal ag oedolion, yn pryderu am ymddygiad y maen nhw – yn gywir neu'n anghywir – yn ei weld fel bygythiol neu wrthgymdeithasol, ac mae hyn wedi taro tant gyda llawer o sefydliadau sy'n gweithio ar eu rhan. Mae *Rhywun i wrando, rhywbeth i'w wneud* yn un ffordd yr ydym ni'n darparu cyfraniad adeiladol tuag at wrthdroi'r tueddiad. Mae'n amlinellu model ymarfer sy'n defnyddio'r polisi a'r fframwaith strategol a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac sy'n cyfeirio at yr angen i oresgyn rhwystrau ar gyfer cyflawni ymarfer da.

"Ces i fy mwlio am ran fwyaf o'm mywyd ysgol, a phan ddwedais i wrth yr athrawon roedden nhw'n credu fy mod i'n edrych am sylw. Yr achos gwaethaf oedd cael bric wedi taflu ataf i"

Mae'r cyhoeddiad yn adnodd defnyddiol i lawer o'r rhai hynny sy'n dosbarthu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ar draws De Cymru. Rydym ni'n gobeithio hefyd y bydd yn ffynhonnell o syniadau ac yn ysbrydoliaeth i'r rhai hynny sy'n gweithio mewn rhannau eraill o Gymru ac mewn rhannau eraill o'r DU. Mae'r model yn cael ei beilotio mewn un Awdurdod Lleol.

Ymarfer cwmpasu CAMHS

Mae Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) wedi bod yn bryder mawr i Gomisiynydd Plant Cymru. Yn 2006-2007, fe gynhaliom ni ymarfer cwmpasu gyda'r Swyddogion Cyswllt Dynodedig ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth GIG, i adolygu gweithrediad strategaeth CAMHS Busnes Pawb ar lefel leol. Mae prif ddarganfyddiadau o'r ymchwiliad yma'n cynnwys:

- lefelau dealltwriaeth amrywiol gan y Byrddau Iechyd Lleol o'u cyfrifoldebau wrth gomisiynu gwasanaethau Haen 3 a 4
- defnyddio cyllid achlysurol i ariannu CAMHS sydd ddim yr achos ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion.
- gwahardd plant a phobl ifanc sydd ag anableddau dysgu, a phlant rhwng 16-18 mlwydd oed sydd ddim yn derbyn addysg llawn amser mewn ysgol.

Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2007

Taclo bwlio yng Nghymru: adolygiad thematig

Nod yr adolygiad hwn yw darganfod bylchau a rhwystrau wrth weithredu mentrau a pholisïau gwrth-fwlio yn effeithiol. Parhaodd gwaith yn ystod y flwyddyn, comisiynwyd ymchwiliwyr annibynnol i ddatblygu Cam 2, ac mae'r adroddiad terfynol yn cael ei ddarparu nawr. Er ei fod yn canolbwyntio ar ysgolion yn bennaf, mae'n ddull holistig ac mae'n ystyried materion perthnasol sy'n ymwneud â bywyd cymunedol, diwylliannol a hyd yn oed bywyd teuluol.

Rydym ni wedi edrych ar fathau gwahanol o fwlio, fel aflonyddwch hiliol, bwlio homoffobig, a bwlio gan ddefnyddio cyfrifiaduron neu ffonau symudol. Rydym ni wedi edrych ar y fframwaith cyfreithiol a'r polisi cyfredol ac ar beth mae sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant neu ar eu cyfer yn hyrwyddo neu wedi sefydlu i atal bwlio ac i ddelio ag ef pan mae'n digwydd. Hefyd, yn seiliedig ar wybodaeth rydym ni wedi casglu, rydym ni wedi penderfynu ymgymryd â rhywfaint o waith ychwanegol ynghylch defnyddio technoleg i fwlio, a byddwn ni'n cynnwys dadansoddiad o rai o'r achosion cymhleth a ddaeth i'n sylw ni yn yr adroddiad terfynol. Drwy ddelio â'r mater yma o safbwyntiau gwahanol, byddwn ni'n gallu



adrodd nid yn unig ar sut i uchafu effaith gwaith ataliol i'r eithaf, ond hefyd, diweddar cyfarwyddyd ymarfer gyda'r ffordd y mae ysgolion ag asiantaethau eraill yn delio â bwlio parhaol a difrifol pan mae wedi digwydd.

Chwarae a hamdden

Mae gwaith wedi cychwyn ar brosiect sydd â'r nod o wella cyfleoedd chwarae a hamdden i blant a phobl ifanc anabl. Roedd hyn yn un o'r cynigion poblogaidd yn nigwyddiadau 2006-07 **Beth nesaf?** Yn y cam cyntaf, dadansoddwyd strategaethau chwarae awdurdodau lleol, gan ddefnyddio criteria sy'n bwysig i blant a phobl ifanc anabl. Hefyd, drwy bartneriaeth gyda Plant yng Nghymru, fe gynhaliom ni weithdai gyda grwpiau o bobl ifanc sydd wedi cael eu heffeithio gan y materion hyn. Bydd yr adroddiad, sy'n cynnwys ein darganfyddiadau, ein hargymhellion a'n cynllun gweithredu ni yn cael ei gyhoeddi'n hwyr yn 2007.

"Mae yna cyngor ysgol genym ac mae o'n gweithio"

Atal a rheoli plant a phobl ifanc

Rydym ni'n pryderu am yr amryw o gyfarwyddiadau a pholisïau ynghylch atal a rheoli, a'r effaith ar blant a phobl ifanc. Ar hyn o bryd, rydym ni'n adolygu'r polisïau hynny am atal a rheoli mewn lleoliadau gofal preswyl, mewn lleoliadau addysg ac yn y system cyfiawnder ieuencid.

Mae ein holl gyhoeddiadau ar gael o'n swyddfeydd, neu gallan nhw gael eu lawrlwytho o'n gwefan www.complantcymru.org.uk



Adran 3

Cadw plant a phobl ifanc yn rhan ganolog o beth rydym ni'n wneud

Fframwaith ar gyfer ymrwymo plant a phobl ifanc

Rhan o rôl y Comisiynydd Plant yw sicrhau y cesglir safbwyntiau a barnau plant a phobl ifanc ar y materion sy'n effeithio ar eu bywydau nhw. Dylen nhw hefyd ein helpu ni i benderfynu ar ein blaenoriaethau a chael dylanwad ar sut mae'r swyddfa yn gweithio. Rydym ni'n ceisio sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfle i fod yn rhan o'n gwaith o ddydd i ddydd a bod ganddyn nhw ffordd o wybod bod y pethau maen nhw wedi dweud wrthym ni'n cael eu hadlewyrchu'n gywir yn y gwaith o ddylanwadu ar weithgarwch a datblygu polisi'r sefydliad.

Fe amlygodd ein profiad o'r blynyddoedd cychwynnol nad oedd ateb unigol i'r broblem hon, felly fe ddatblygom ni fframwaith ar gyfer ymrwymo plant a phobl ifanc.

Mae holl waith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc yn cynnwys cynnal sgwrs, ond mae gan ein fframwaith ddwy brif rhan: grwpiau ymgynghorol a phroses sy'n diweddu gyda'n digwyddiadau **Beth nesaf?** Mae'r rhain yn rhoi hawl i blant a phobl ifanc i fynegi eu barn am beth rydym ni'n wneud a sut rydym ni'n gwneud hyn.

Grwpiau ymgynghorol

Mae gennym ni ddau grŵp ymgynghorol, un yng Ngogledd Cymru ac un yn Ne Cymru sy'n gweithredu mewn dull ymgynghorol ac sy'n dylanwadu ac yn darparu mewnbyn i'n polisïau a'n gweithdrefnau, ein cyhoeddiadau, ein system recriwtio a mewn datblygu ein dulliau gwaith. Maen nhw hefyd yn helpu i gynllunio a chynnal digwyddiadau ac yn gweithio ochr yn ochr â ni mewn digwyddiadau fel yr Eisteddfodau a lansiadau - fel lansiad y rhadffôn.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ddau grŵp wedi cyfarfod o leiaf wyth gwaith, yn ogystal â gweithio ar broiectau penodol fel recriwtio staff newydd a gweithwyr cefnogol gwirfoddol. Maen nhw wedi ymgymryd â gwaith ar gyfer y sefydliad sy'n gysylltiedig â'n gweithdrefn cwynion mewnol a'r wefan, ac maen nhw wedi cyfrannu i'n hymatebion ymgynghorol i'r Cynulliad a chyrff eraill. Fe gynlluniodd a chynorthwyodd aelodau o'r grwpiau ymgynghorol i ddarparu gweithgareddau ar gyfer ymgynghorion ar chwarae a hamdden, addysg ag ysgolion, bwllo a'r CCUHP, ar gyfer Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol.

Yn ystod tymor yr Hydref, cynhaliwyd y digwyddiad preswyl cyntaf ar gyfer y grwpiau ymgynghorol yng Nghanolbarth Cymru. Roedd yn cynnwys gweithgareddau adeiladu tîm a hefyd llawer o waith caled er mwyn ein helpu ni i ystyried y materion a darparu ar gyfer digwyddiadau **Beth nesaf?** a fydd yn cael eu cynnal ym mis Ionawr 2007.

Digwyddiadau Beth nesaf? a blaenoriaethu projectau'r Comisiynydd

O ganlyniad i nifer o faterion gwahanol yn dod at ein sylw drwy agweddau gwahanol o'n gwaith, roeddem ni angen sefydlu proses deg i roi llais i blant a phobl ifanc mewn beth rydym ni'n ddewis fel blaenoriaethau i'w gweithredu, yn hytrach na gwneud yr holl benderfyniadau hynny ein hunain. Caiff y materion sy'n cael eu trafod yn y digwyddiadau **Beth nesaf?** eu casglu o'r holl wybodaeth a gafwyd gan blant a phobl ifanc ac oedolion dros y flwyddyn flaenorol. Mae materion yn dod i'r golwg o bob agwedd o'n gwaith, gan gynnwys gweithdai a thrafodaethau gyda phlant a phobl ifanc, cyngor a chefnogaeth a materion polisi. Gall sefydliadau plant, cymdeithasau proffesiynol neu gyrff eraill hefyd dynnu'n sylw at bethau sy'n effeithio ar y plant y maen nhw'n gweithio gyda nhw. Mae'r rhain oll yn mynd i'r pot pan rydym ni'n penderfynu - gyda chymorth y Grwpiau Ymgynghorol - pa brif themâu sy'n dod i'r golwg.

Rydym ni'n ceisio gwneud y digwyddiadau mor gynhwysol a hygyrch (a phleserus) â phosib a dosrennir llefydd drwy ysgolion, cymdeithasau a phrojectau ledled Cymru. Nid oes angen i ni wybod am gefndir neb, onibai ei fod yn golygu bod angen i ni eu helpu nhw i gymryd rhan, ond rydym ni'n ceisio annog pobl ifanc sydd yn y grwpiau rydym ni'n dargedu i fynychu. Nid ydyn nhw yno i siarad am amgylchiadau eu hunain, ond mae'n bwysig bod y rhai hynny sy'n cymryd rhan yn adlewyrchu cefndiroedd gwahanol a phrofiadau bywyd plant a phobl ifanc Cymru.

Fe ddarganfyddodd blwyddyn gyntaf y broses newydd yma chwarae a hamdden ac addysg ag ysgolion fel dau faes allweddol, ac fe sicrhawm ni ein bod ni'n gweithio ar faterion a oedd yn gysylltiedig â'r themâu hyn. Drwy ein profiad o geisio datblygu dau faes blaenoriaeth allweddol, dangoswyd bod angen i ni fod

yn fwy penodol gyda'r opsiynau roeddem ni'n gynnig fel ein bod ni'n gallu bwydo'n ôl a dangos beth gyflawnom ni. Felly, yn 2006-07, fe edrychodd ein dau ddigwyddiad **Beth nesaf?** ar broiectau arbennig. Fe ofynnem ni i blant a phobl ifanc sôn mwy wrthym ni dros yr haf, ac fe helpodd y Grwpiau Ymgynghorol ni i ddatblygu'r opsiynau hyn ar gyfer y digwyddiadau:

Chwarae a hamdden

- Siarad gyda chynghorau lleol ynghylch gwella chwarae i blant a phobl ifanc anabl
- Annog pobl i ofyn i blant a phobl ifanc sut y dylai arian gael ei wario ar chwarae a hamdden yn eu cymunedau
- Edrych am ffyrdd i wneud prisiau canolfannau hamdden yn fwy teg ar draws Cymru
- Rhoi syniadau i gynghorau lleol ar sut i wella trafniadaeth gyhoeddus.

Addysg ag ysgolion

- Edrych ar sut gallwn ni wella dysgu
- Datblygu pecyn i helpu cynghorau ysgolion i wella adeiladau ag offer ysgol
- Cynhyrchu pecyn i'ch helpu chi i wella bwyd ysgol
- Sicrhau eich bod chi'n derbyn cefnogaeth yn yr ysgol a'ch bod chi'n gallu cwyno os oes rhywbeth yn bod.

Cynhaliwyd y digwyddiadau yn Y Galeri, Caernarfon (ar gyfer plant dros 11 mlwydd oed) ac yn y Stadiwm Liberty, Abertawe (ar gyfer plant 11 mlwydd oed neu lai) a mynychodd 150 o bobl pob digwyddiad. Hefyd, fe wahoddon ni oedolion a allai wneud gwahaniaeth – fel swyddogion LICC, cynrychiolwyr o'r CLILC, Aelodau'r Cynulliad ac eraill – i wrando ar beth oedd gan y 300 o blant a phobl ifanc i ddweud. Roedd gan y rhai hynny na fynychodd y digwyddiadau gyfle i bleidleisio hefyd drwy Atebônol a drwy ein gwefan.

Y Canlyniadau

Chwarae a hamdden

Roedd 30% eisiau i ni helpu i wella cyfleoedd chwarae a hamdden i blant a phobl ifanc anabl.

Addysg ac ysgolion

Pleidleisiodd 31% i ni ddatblygu gwaith i wella dysgu

Rydym ni hefyd yn mynd i fod yn edrych ar sut fedrwn ni newid y pethau yr oedd yr opsiynau eraill y project i fod i daclo, gan i bob project dderbyn canran dda o'r bleidlais a gan yr oedd plant a phobl ifanc yn teimlo'n gryf amdanyn nhw.

Bydd rhan nesaf y project yma'n rhoi llais i blant a phobl ifanc yn ein cynllun corfforaethol newydd i'w helpu nhw i hysbysu'r Comisiynydd newydd ynghylch beth ddylai eu blaenoriaethau fod wrth iddyn nhw gychwyn eu swydd. Rydym ni eisiau iddo fod yn gyfle i ddarganfod mwy am beth sy'n dda am dyfu fyny yng Nghymru heddiw, yn ogystal â gadael i ni wybod am beth sy'n gallu bod yn anodd.

Cadw mewn cysylltiad gyda phlant a phobl ifanc a gyda phobl sy'n gweithio gyda nhw

Sut rydym ni'n gwneud hyn ...

- ymweliadau
- gweithdai
- rhaglen dargedig – grwpiau bregus, plant sy'n cael eu hynysu a rhai sy'n anodd eu cyrraedd
- mynychu digwyddiadau
- codi ymwybyddiaeth a hyfforddi gydag oedolion
- llysgenhadon ysgol
- Atebnôl - ein grŵp e-bost
- gwefan
- y cyfryngau a hyrwyddo

Estyn allan i'r holl blant a phobl ifanc

Drwy ymweld ag ysgolion a grwpiau o bobl ifanc yn rheolaidd, siarad mewn cynadleddau a mynychu digwyddiadau, rydym ni'n cael ein diweddarau gyda'r pethau y mae plant a phobl ifanc yn teimlo sy'n bwysig iddyn nhw, a beth sy'n effeithio ar eu bywydau ar hyn o bryd. O ganlyniad i'r gwasanaeth cyngor a chefnogaeth a chysylltiadau gyda sefydliadau a chyrff allanol, rydym ni'n derbyn mwy o wybodaeth am beth sy'n achosi pryder arbennig.

Mae'n anodd sicrhau y cesglir gwybodaeth gan HOLL blant Cymru, ac mae gan ein hail fframwaith Cyfathrebu a Chyfranogi sawl llinyn. Mae gennym ni raglen ymweliadau, gweithdai a sianeli cyfathrebu gwahanol sydd wedi'u dylunio i sicrhau ein bod ni'n gwneud popeth yn ein gallu i gyrraedd pawb. Mae gennym ni raglen waith systematig a thargedig gyda phlant a phobl ifanc sy'n cael eu hynysu, sy'n fregus neu sy'n anodd eu cyrraedd. O ystyried yr ardal dddearyddol eang a'r ystod eang o grwpiau ynghlwm, mae hyn yn golygu gweithio ochr yn ochr â sefydliadau eraill ac mae'n ymrwymiad hirdymor.

"Dwi wedi cael fy mwlio, a ches i ddim llawer o gefnogaeth gan fy ysgol"

Drwy gael llinellau neu weithgareddau gwahanol yn cyfrannu i'r rhaglen yma, gallwn ni gael sgwrs gytbwys a chynhwysol, sy'n sicrhau bod y rhai hynny sy'n aml heb lais yn gallu lleisio eu barn a bod oedolion pwysig eraill yn gallu lledaenu'r gair.

Llysgenhadon Ysgol

Mae'r menter llysgenhadon ysgol yn un esiampl o sut mae'r nod o godi ymwybyddiaeth a gwella sianeli cyfathrebu gyda thîm y Comisiynydd yn mynd ochr yn ochr â hyrwyddo'r CCUHP. Yn ogystal â darganfod dau ddisgybl o fewn yr ysgolion cynradd fel ein prif bwynt cyswllt ar gyfer yr ysgol, mae'r cynllun yn cefnogi ac yn annog creu amgylcheddau mewn ysgolion sy'n ymwybodol o hawliau, ac mae'n rhoi hawl i Lysgenhadon a'u cefnogi nhw i ddatblygu projectau sy'n arbennig o berthnasol i'r ysgol yn fewnol.

Mae pecyn cymorth y llysgennad wedi cael ei ailddatblygu'n seiliedig ar adborth o'r gwerthusiad peilot a gydag ymrwymiad disgyblion o'r ysgolion a gymrodd ran. Rydym ni'n gweithio gyda dylunydd graffigol i ddatblygu nid yn unig copïau caled, ond templed a ellir ei ddefnyddio ar gyfer ei ddatblygu yn y dyfodol ag adnoddau ar y wefan i ysgolion a hoffai ddatblygu gyda'r fenter cyn ein bod ni'n gallu cael cefnogaeth uniongyrchol gan ein Swyddogion Cyfathrebu a Chyfranogi. Er mwyn datblygu'r fenter hon, mae angen i'r pecyn cymorth ddarparu digon o adnoddau i Lysgenhadon a'u hathrawon cyswllt

Mae pecyn cymorth i athrawon hefyd yn cael ei ddatblygu gyda'r un wybodaeth, ac mae'n cynnwys nodiadau ychwanegol i ddarparu cyfarwyddyd i athrawon ac i ddangos cysylltiadau gyda'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Fframwaith ABCh newydd.

Atebnôl

Yn dilyn ymgynghoriad gyda gweithgor o blant a phobl ifanc yng Ngogledd Cymru, rydym ni wedi cael syniadau ynghylch sut y gall Atebnôl fod yn becyn cyfathrebu mwy effeithiol. Mae gwaith ymgynghori tebyg yn cael ei gynnal yn Ne Cymru, a bydd cynllun project yn cael ei ddatblygu a'i gostio i ddatblygu'r brand Atebnôl fel rhywbeth sy'n gymwys i'n trafodaeth â phlant a phobl ifanc drwy TG.

Lledaenu'r gair a siarad ar ran plant a phobl ifanc

Mae cyfleu'r neges yn gryf a chlir yn hanfodol os yw hyrwyddwr plant eisiau bod yn effeithiol. Mae gan holl aelodau tîm y Comisiynydd ran i'w chwarae mewn hyrwyddo ein gwaith a'n nodau a'n hamcanion. Mae gennym ni daflenni a phethau am ddim, ac rydym ni'n defnyddio ffyrdd gwahanol o sôn wrth bobl am



ein gwaith. Weithiau, rydym ni'n defnyddio taflenni neu fersiynau pobl ifanc o'n hadroddiadau. Rydym ni hefyd yn cynnal gweithdai neu seminarau neu'n rhoi areithiau neu gyflwyniadau i egluro beth rydym ni wedi'i ddarganfod a beth rydym ni'n meddwl sydd angen newid.

Mae plant a phobl ifanc angen cael adborth ar beth rydym ni'n wneud gyda'r wybodaeth maen nhw'n rhoi i ni, ac rydym ni angen sicrhau bod gwneuthurwyr polisïau a'r rhai hynny sy'n gallu gwneud gwahaniaeth yn ymwybodol o farnau ag argymhellion y Comisiynydd. Rydym ni'n ceisio adlewyrchu beth mae plant a phobl ifanc wedi dweud wrthym ni drwy'r adeg - nid beth rydym ni'n feddwl sydd er lles iddyn nhw yn unig.

Drwy roi cyfweiliadau i bapurau newydd, cylchgronau, cyfnodolion, rhaglenni teledu a radio cenedlaethol, lleol a rhai'r DU, rydym ni'n ceisio cyrraedd cyn gymaint o bobl â phosib. Fodd bynnag, mae'r dasg o gyrraedd holl blant Cymru, a sicrhau eu bod nhw'n ymwybodol o'r Comisiynydd Plant, yn rhy fawr i ni ei gyflawni ar ein pen ein hunain. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol, Awdurdodau Addysg Leol, ysgolion a'r holl rai hynny sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn rhannu'r cyfrifoldeb yma.

Cyfleoedd cyfartal

Mae'n angenrheidiol bod tîm y Comisiynydd Plant yn hygyrch ac yn groesawgar i holl blant Cymru, yn dathlu amrywiaeth ac yn cofleidio ymarfer gwrthomesol. Yn aml, bydd hyn yn golygu gweithio gyda'r rhai hynny sy'n brofiadol mewn dulliau cyfathrebu penodol neu mewn gweithio'n uniongyrchol gyda grŵp penodol o blant a phobl ifanc.


Welsh Language Scheme

Mae Grwpiau Ymgynghorol Pobl Ifanc yn helpu i ddatblygu cynllun i gyhoeddi a hyrwyddo'r cynllun - yn enwedig i blant a phobl ifanc. Mae'r cynllun yn amlinellu ein hymarfer yn glir pan rydym ni'n darparu gwasanaeth dwyieithog, ac mae'n dangos bod y ddwy iaith yn hafal yn ein gwaith. Mae cynllun gweithredu'n cael ei greu i sicrhau bod y gwaith da'n parhau a bydd gweithgor yn cael ei sefydlu i'w adolygu ac i ystyried gwelliannau.

Gellir lawrlwytho'r cynllun oddi ar ein gwefan

www.complantcymru.org.uk

cefnogaeth cyfartal ffeithiau dysgu lleisiau





Adran 4

Rhaglen waith ar gyfer y dyfodol

Yn ogystal â'r gweithgareddau newydd a restrir yn yr adrannau blaenorol o'r adroddiad hwn a pharhau gydag elfennau parhaus o'n rhaglen waith, bydd prif elfennau'n cynnwys:

- sefydlu ein cynllun corfforaethol ar gyfer y dair mlynedd nesaf, gyda mewnbwn plant a phobl ifanc a budd-ddeiliaid.
- cwblhau ein gwaith sy'n ymwneud ag adrodd ar y CCUHP
- ymgymryd â'r ddau broiect gwahanol a gydnabuwyd gan blant a phobl ifanc, i wella cyfleoedd chwarae a hamdden i blant a phobl ifanc anabl, ac i wella dysgu.
- parhau i godi ymwybyddiaeth o rôl y Comisiynydd a'r CCUHP ym mhob agwedd o'n gwaith.
- darparu gwasanaeth cyngor a chefnogaeth o ansawdd uchel
- archwilio achosion cymhleth a chynnal adolygon ymchwiliol
- dosbarthu DVD a phecyn hwyluso i'r holl ysgolion uwchradd yng Nghymru. Bydd hyn hefyd yn addas i glybiau ieuenctid, projectau lleol ag achosion anffurfiol.
- cyhoeddi'r pecyn cymorth newydd ag ail-lansio'r rhaglen llysgenhadon ysgol i recriwtio Llysgenhadon gan bwyll bach mewn ysgolion cynradd ym mhob rhan o Gymru.
- cynyddu ymrwymiad plant a phobl ifanc ymhellach yn y broses cynllunio ac o ran gosod blaenoriaethau o fewn ein rhaglen waith ar gyfer y dyfodol.
- recriwtio aelodau newydd ar gyfer y Grŵp Ymgynghorol ac adeiladu gallu'r grwpiau hyn.
- lansio Atebônol newydd a gwell
- parhau i fonitro gweithrediad yr argymhellion a wnaethpwyd yn ein hadroddiadau



- cwblhau gwaith ar yr adolygiad thematig o fwlio
- creu cysylltiadau cryfach gyda phartneriaethau fframwaith plant a phobl ifanc
- parhau i wrando a dysgu, i hyrwyddo arfer da ac i siarad dros blant a phobl ifanc Cymru.
- monitro, adolygu ac ymateb i ymgynghoriadau, a sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael lleisio'u barn am y pethau sy'n effeithio arnyn nhw.
- ymgyrchu ar gyfer gwasanaethau eirioli a chynghori i blant yng Nghymru
- gweithio gydag Arolygiaeth Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru i wella'r ddarpariaeth CAMHS ar gyfer plant a phobl ifanc Cymru.
- hyrwyddo'r rhifau rhadffôn a thecstio di-dâl i blant a phobl ifanc
- cynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth cyngor a chefnogaeth, yn enwedig gyda phlant a phobl ifanc drwy Gymru, gan gychwyn gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, sydd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol neu sy'n y carchar.
- cwblhau adolygiad ar ataliaeth mewn addysg a gwasanaethau ysbytai
- ymgyrchu ar gyfer gwella pwerau'r Comisiynydd
- parhau i ymgyrchu ar gyfer newidiadau polisi sy'n seiliedig ar gyflawniadau gwasanaethau cynghori.

Yn amlwg, mae'r rhaglen waith yn cynnwys cynnal a datblygu agweddau amrywiol o'n gwaith a'r gwasanaethau rydym ni'n darparu ymhellach. Fel bob amser, bydd darpariaeth ar gael ar gyfer cyfraniad plant a phobl ifanc tuag at osod ein blaenoriaethau a dylanwadu ar y ffordd rydym ni'n cyflawni peth o'r gwaith rydym eisoes yn ymrwymedig i'w gyflawni.

"Dwi ddim yn meddwl bod y cyngor ysgol yn helpu llawer yn ein hysgol ni."

parch
dylanwadu
hawliau
gwrando
cynnwys
ffeithiau
dysgu
lleisiau
cyfartal
cefnogaeth



Adran 5

Adolygiad o'r materion sy'n berthnasol i hawliau a lles plant a phobl ifanc Cymru

Gwasanaethau Eiriolaeth Annibynnol i blant a phobl ifanc

Mae Eiriolaeth Annibynnol sydd â ffydd plant a phobl ifanc yn hollbwysig ar gyfer diogelu eu lles a hyrwyddo eu hawliau. Ein gwelediad erioed yw cael gwasanaeth eiriolaeth a ariannir ac a gomisiynir yn ganolog, sy'n hollol annibynnol gyda seiliau lleol, sy'n siop un stop ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai hynny sydd mewn perygl fwyaf, sydd â sicrwydd ansawdd ac sy'n cael ei fonitro'n ganolog. Mae aelodau'r Cynulliad wedi ymuno â ni i ddadlau a galw am wasanaeth o'r fath. Nid yw model arfaethedig Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cwrdd â llawer o'r criteria hyn

Fe nododd Peter Clarke yn amlwg iawn yn adroddiad blynyddol y flwyddyn ddiwethaf y collwyd cyfle pwysig i wella ac ehangu eiriolaeth i blant – i roi'r llais sy'n ddyledus iddyn nhw. Roedd yn ystyried yn ofalus

defnyddio ei bwerau cyfreithiol i adolygu'r ffyrdd y mae LICC yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant. Er bod y model ymgynghori a gyhoeddwyd yn dipyn gwell na'r drafft a welodd, nid yw hyd yn oed eto'n cwrdd ag anghenion plant Cymru.

Ystyriwyd y cynnig i gael bwrdd o aelodau anweithredol i gynghori LICC yn amnewidyn gwael a di-bŵer ar gyfer Uned Eiriolaeth Annibynnol. Nid yw Comisiynwyr Rhanbarthol yn darparu annibyniaeth go iawn, gan y bydd darparwyr eiriolaeth yn parhau i gael eu cyllido gan y rhai hynny y bydd rhaid iddyn nhw sialensio o bosib. Nid yw ychwaith yn goresgyn problemau'r gorffennol, gyda'r perygl o ddarparwyr yn cael eu newid a phobl ifanc yn cael eu hamddifadu rhag cael cyfle i ddatblygu neu i barhau i gael perthnasau gydag oedolion y maen nhw'n ymddiried ynddyn nhw ac sydd yna i'w cynrychioli nhw. Er y bydd eiriolaeth gyffredinol yn cymryd cryn amser i'w ddatblygu, mae'r dull cyfnodol arfaethedig yn y model yn afresymegol ac yn allgynhwysol. Dylai'r holl blant yr ystyrir yn fregus gael mynediad i wasanaethau eiriolaeth i ddechrau, a dylai hyn gael ei ddilyn gan eiriolaeth gyffredinol cyn gynted â phosib wedyn.

Gwellhawyd y model drafft drwy gynnwys rhadffôn unigol er mwyn i holl blant Cymru gael mynediad i wasanaethau eiriolaeth a rhai eraill. Mae hon yn weledigaeth gref a fydd yn lleihau cymhlethdod ac a fydd yn cynyddu mynediad mewn ffordd sydd ddim yn stigmatiddio, siop un stop gweledol.

Rydym ni'n disgwyl cynigion terfynol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dilyn eu hymgyngoriad. Mae amser o hyd i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol, diogel, cyson, hawdd eu cyrraedd ag o ansawdd nawr ac ar gyfer y dyfodol. Ni ddylid colli'r cyfle pwysig yma.

Gweithredu argymhellion Clywch a chefnogaeth cyngori

Roedd Peter yn frwdfrydig yn ei gred y byddai datblygu strategaeth cyngori i'r holl ysgolion yng Nghymru yn cael effaith sylweddol ar fywydau plant a phobl ifanc mewn cyfnod byr o amser. Amlygwyd yr angen yma gan ein lleoliad yn nhabl cyngorair UNICEF o les emosiynol plant mewn gwledydd datblygedig – yr 21ain wlad allan o 21. Rydym ni wedi parhau i gwrdd â swyddogion y Cynulliad i ddylanwadu'r datblygiad yma. Mae'r strategaeth wedi cael ei dosbarthu er ymgynghoriad, ac fe ymrwymon ni ein Grŵp Ymgynghorol Pobl Ifanc i ddarganfod eu barnau am ba fath o wasanaeth bydden nhw'n defnyddio. Roedd ganddyn nhw ryw faint o gwestiynau yr oedden nhw wedi'u hystyried yn dda, yn enwedig am gyfrinachedd a lleoliad ysgol. Nawr, rydym ni'n disgwyl i'r strategaeth gael ei chyhoeddi. Dyma'r cam pwysig cyntaf. Y cam hollbwysig wedyn yw sicrhau y caiff y strategaeth ei hariannu fel bod gan blant berson arall o'r diwedd y gallan nhw bwyso troi ato/ati pan fo angen.

Un o brif argymhellion archwiliad Clywch oedd sefydlu triwbwnlysoedd annibynnol yng Nghymru a chael cynrychiolwyr o'r llywodraethwyr, yr undeb llafur a'r gyfraith i ystyried y cyhuddiadau cymhleth hynny am staff ysgol sy'n cynnwys materion amddiffyn plant.

"Dylai athrawon delio â bwlio o ddifri gan fod hi'n mater sy'n tyfu. Dylai cosbai fod yn llym."

"Mae cyngor ni yn gret"

Y bwriad oedd sicrhau:

- y cymrwyd y penderfyniad p'un ai i barhau gydag archwiliad neu beidio o fewn cyd-destun polisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant, a drwy ymgynghoriad gyda'r gwasanaethau cymdeithasol.
- yr ymgwymerwyd â'r archwiliad disgyblaeth gan rywun sydd â digon o annibyniaeth ag arbenigedd i fwynhau hyder yr holl ochrau.
- bod y graddfeydd amser yn glir ac yn deg ac mai corff a oedd yn annibynnol ac yn debygol o fwynhau hyder yr holl ochrau, yn arbennig athrawon, oedd yn gyfrifol am y penderfyniad terfynol.

Fel rhywbeth amgen, cytunodd Peter Clarke i sefydlu gwasanaeth archwilio annibynnol a llywodraethwyr annibynnol sydd â phrofiad amddiffyn plant/cyfreithiol, cyn belled â bod hyn yn cwrdd ag amcanion yr argymhellion gwreiddiol. Mae'n flwyddyn erbyn hyn ers y sefydlwyd y gwasanaeth archwilio annibynnol.

Rwyf wedi cyfarfod gyda chynrychiolwyr y gwasanaeth archwilio a swyddogion y Cynulliad i drafod datblygiad. Pan wnaethom ni gyfarfod, roedden nhw wedi archwilio 82 o achosion. Fe'm hysbyswyd i nad oedd tystiolaeth o gyhuddiadau maleisus ar gael. Roedd y cyhuddiadau'n cynnwys trais emosiynol, ffisegol a rhywiol, diffyg gofal, anfon negeseuon testun anaddas a'r defnydd anaddas o gyfrifiaduron. Er eu bod nhw'n teimlo bod rhai o'r materion yn fychan, roedd nifer fechan o'r archwiliadau'n cynnwys materion difrifol ac mae'r rhain wedi arwain at gollfarnau troseddol.

Fe'm hysbyswyd i fod rôl y llywodraethwyr annibynnol yn gweithio'n dda, ond mae problemau'n bodoli o hyd sy'n parhau i lesteirio'r broses. I gychwyn, achosodd yr asiantaethau statudol, yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol anawsterau ag anghysondebau mewn rhannu gwybodaeth a thystiolaeth. Mae hyn wedi arwain at ohiriad ac yn yr achosion gwaethaf, llywodraethwyr yn ail-gyfweld plant ond yn parhau heb fod wedi gweld yr holl dystiolaeth sydd ar gael. Mae swyddogion y Cynulliad yn trafod protocolau gyda'r gwasanaethau statudol i geisio cyfeirio at y broblem hon. Yn ail, mae cymhlethdod o hyd ynghylch rôl yr archwiliwyr, cyfeiriaeth i'r gwasanaeth a sut i osod y gweithdrefnau. Yn drydydd, mae amrywiaeth ymysg gallu'r llywodraethwyr i ystyried a beirniadu tystiolaeth gymhleth ar adegau, ac nid yw adroddiadau annibynnol a'r canlyniadau a ddilyniir yn cael eu harolygu na'u monitro. Hefyd, yn wahanol i staff ysgol a staff cyflenwi, nid yw staff asiantaethau'n rhwym i'r gweithdrefnau hyn. Mae angen cyfeirio at y materion hyn.

Dylen ni fod yn falch ein bod ni wedi sefydlu system unigryw yng Nghymru a ddyluniwyd i ddiogelu plant, ond mae LICC angen sicrhau bod y gwasanaeth yn cyflawni amcanion yr argymhelliad gwreiddiol. Byddwn ni'n parhau i fonitro datblygiadau'n agos.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)

Mae CAMHS Cymru mewn argyfwng o hyd. Fe soniodd Peter Clarke lawer gwaith am ddiffyg ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu adnoddau a gweithredu Busnes Pawb, strategaeth wych ei hunan. Fe amcangyfrifodd grŵp gweithredu CAMHS y byddai angen £10 miliwn y flwyddyn dros dair blynedd. Fodd bynnag, nid yw'r lefel yma o arian erioed wedi cael ei gyflawni yng Nghymru ac nid yw unrhyw arian a gyhoeddwyd wedi bod yn ddigon i gael effaith strategol.

Drwy gydweithrediad â'r Comisiynydd Plant yn Lloegr, fe gyhoeddodd ni adroddiad ynghylch plant a phobl ifanc sy'n cael eu derbyn am driniaeth ar wardiau oedolion, ac sy'n amlygu effaith niweidiol a dychrynlyd eu profiadau. Rydym ni hefyd wedi cynnal ymarfer cwmpasu gyda'r Swyddogion Cyswllt Dynodedig ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth GIG, sy'n adolygu gweithredu strategaeth CAMHS Busnes Pawb, ar lefel lleol. Mae hyn yn cael ei fwydo i adolygiad parhaus Arolygiaeth Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru o CAMHS. Nid oedd ein darganfyddiadau'n sioc o ystyried profiadau plant a phobl ifanc, teuluoedd a phobl broffesiynol sydd wedi derbyn cymorth gennym ni dros y 6 mlynedd diwethaf.

Amlygodd yr ymarfer cwmpasu:

- ohiriadau annerbyniadwy mewn gwneud penderfyniadau am driniaeth a lleoliadau ar gyfer plant sâl, y mae eu hiechyd yn gwaethygu wrth aros i benderfyniadau gael eu gwneud.
- gyllid achlysurol sy'n arwain at blant yn colli hyder yn y CAMHS, a'r ffaith nad yw CAMHS yn darparu ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anableddau dysgu ac afiechyd meddwl (a gaiff ei ddisgrifio'n beryglus gan bobl broffesiynol)
- nad yw CAMHS yn darparu ar gyfer plant rhwng 6 ac 18 mlwydd oed sydd ddim mewn addysg llawn amser, gan gynnwys plant sydd yn y carchar, er ym ymarferol, mae staff CAMHS yn ymdrechu i ddarparu gwasanaethau i'r bobl ifanc hynny.
- y ffaith nad yw CAMHS yn asesu plant a phobl ifanc mewn rhai ardaloedd cyn cael eu hanfon o'r ysbyty ar ôl iddynt achosi niwed iddyn nhw eu hunain. Mae gan bob plentyn yr hawl i dderbyn yr asesiad yma.

"Dwi'n dweud popeth wrth mam a dad, ond dwi ddim yn gadael iddyn nhw wneud unrhyw beth am y fwlio."

Gennym ni y mae'r nifer lleiaf yn y DU o welyau ar gyfer cleifion mewnol ifanc mewn cymhariaeth â nifer y boblogaeth, ac nid oes gennym ddarpariaeth arbenigol ar gyfer cleifion mewnol sy'n blant ag anhwylderau bwyta neu anableddau dysgu. Mae gennym ni raddfa hunanladdiad plant sydd bum gwaith yn uwch na Lloegr, eto nid oes gennym ni strategaeth i atal hunanladdiad yng Nghymru.

Nid oes llawer o dimau'n darparu gwasanaethau arbenigol i grwpiau bregus fel plant sydd wedi cael eu cam-drin neu sydd ag ymddygiad sy'n niweidiol rhywiol. Mae pawb yn gwybod bod nifer yr achosion ar gyfer cam-drin plant a thrais domestig yn uchel, a gall y canlyniadau a'r effaith aros gyda nhw am fywyd. Mae ymchwil mwyaf diweddar yr NSPCC yn dangos y bydd cyn gymaint ag un mewn wyth o blant wedi profi rhyw fath o drais yn ystod eu plentynodod. Yn wahanol i'r datblygiad a wnaethpwyd gan bwyll bach yn Lloegr gyda'r Rhaglen Atal Dioddefwyr Trais a Chamdriniaeth, nid oes unrhyw ddatblygiad yng Nghymru ynghylch cwmpasu a chynllunio modelau ymyrraeth. Dylid datblygu menter debyg i ddelio ag effeithiau iechyd meddwl y mae cam-drin plant yn achosi yng Nghymru, ynghyd ag ymateb cydlynol, strategol i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc sydd ag ymddygiad niweidiol rhywiol, ac a fydd yn gostwng lefel cam-drin rhywiol plant ac yn helpu'r plant hynny rhag parhau â'r ymddygiad yma wrth iddyn nhw dyfu'n oedolion.

Dylid cyfeirio at yr holl faterion hyn. Rydyn ni'n annog swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gryf i weithredu darganfyddiadau ein hadroddiad ac Adolygiad Adolygiaeth Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch CAMHS, i sicrhau mynediad teg ar draws Cymru.





Plant sy'n derbyn gofal

Mae'n galonogol meddwl mai ar Blant Bregus yr oedd un o'r Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol cyntaf a dablwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae LICC wedi buddsoddi llawer mewn gwella gwasanaethau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ond mae angen gwneud llawer o hyd. Mae'r anghysondeb sy'n bodoli ar draws Cymru mewn canlyniadau i blant, yn enwedig mewn cyflawniad addysgol yn annerbyniadwy. Yr unig ffordd y gellir egluro hyn yw oherwydd y gwasanaethau a'r gefnogaeth anghyson y mae plant yn derbyn.

Rydym ni'n gwybod y gall cartref maeth gofalgwr ehangu cyfleoedd bywyd, eto mae gennym ni 14% o blant o hyd sydd wedi cael tri neu mwy o leoliadau mewn blwyddyn. Mae hyn yn drafferthus ac yn annifyr. Mae lleoliadau diogel a phleserus yn hollbwysig i les emosiynol plant.

Croesawir y gwelliannau sy'n ofynnol gan LICC pan leolir plant yn bell o gartref. Nawr, cyn y lleolir y plentyn, mae rhaid i awdurdodau lleol hysbysu'r gwasanaethau addysg, y gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yn yr ardal ble lleolir y plentyn, a sicrhau y cynhelir asesiad o anghenion iechyd y plentyn, gan gynnwys anghenion emosiynol ac iechyd meddwl, a bod cynllun manwl mewn lle sy'n nodi sut bydd yr anghenion hynny'n cael eu cyflawni.

Yn anffodus, mae pobl yn parhau i gysylltu â ni am gyngor ynglŷn ag anghenion iechyd plant pan gant eu lleoli'n bell o gartref. Mae'n ymddengys bron â bod fel bod rhai awdurdodau lleol yn gosod plant yn bell o'u cartrefi a'u cymunedau, yn aml mewn lleoliadau gwledig yng Nghymru, ac yna'n anghofio amdany'n nhw. Mewn ystyr, mae ein plant mwyaf bregus yn cael eu rhoi o'r neilltu yng nghefn gwlad.

Yn anffodus, mae'r canlyniadau ar gyfer plant sydd wedi gadael gofal hefyd yn parhau i fod yr un fath, gyda dim ond 40% yn unig mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Er gwaetha'r buddsoddiad, rydyn ni'n parhau i adael llawer gormod o blant i lawr.

Ymddygiad gwrthgymdeithasol

Mae pawb wedi cael sioc ac wedi teimlo'n drist am yr ymosodiadau ar aelodau o'r cyhoedd gan gyfran fechan o bobl ifanc. Bydd y gyfraith yn cymryd y trywydd iawn a bydd y dystiolaeth yn cael ei ystyried a barnau'n cael eu gwneud. Yn y cyfamser, y peth na ddylem ni wneud yw labelu'r holl bobl ifanc fel treisgar ac anghyfrifol. Mae gan y cyfryngau hefyd gyfrifoldeb am hyn ac mae rhaid iddyn nhw adrodd beth sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd tra'n gwrthod y temtasiwn i gynyddu'r ofn o droseddau gan blant a phobl ifanc. Heb os nac oni bai, mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yng Nghymru'n dda. Maen nhw'n gwneud cyfraniadau positif i gymunedau lleol ac maen nhw'n cyflawni mewn sawl ffordd fel unigolion ac fel grwpiau. Maen nhw hefyd yn cael braw gan ddigwyddiadau ac yn pryderu am y ffordd y maen nhw'n cael eu portreadu a'u labelu.

"Rwy yn meddwl bod y cyngor ysgol yn dda allwn dweud ein barn"

Gan weithio'n agos gyda phlant a phobl ifanc a Heddlu De Cymru, fe gyhoeddodd ni *Rhywun i wrando, rhywbeth i wneud*, cyfarwyddyd ymarferol ar gyfer cydweithio gyda phobl ifanc i wella cymunedau lleol. Dywedodd pobl ifanc wrthym ni nad oedd ganddyn nhw lawer o bethau i wneud neu lefydd i fynd iddyn nhw – dim cyfleusterau ar ôl ysgol, dim clybiau ieuenctid yn eu hardal. Maen nhw'n teimlo fel nad oes neb yn gwrando, ac mae gweithgareddau'n rhy ddrud neu nid ydyn nhw'n gallu eu defnyddio. Er mwyn sicrhau newid positif, parhaol, mae'n amlwg bod angen dull holistig amlasiantaethol gydag ymrwymiad gweithgar pobl ifanc a chefnogaeth y gymuned leol.

Mae'r dull yma wedi gweithio'n dda mewn ardaloedd eraill a nawr, mae'n cael ei beiliotio'n Ne Cymru. Drwy weithio gyda'n gilydd a gwerthfawrogi plant a phobl ifanc fel rhan o'r ateb, efallai y gallwn ni o bosib wneud newidiadau go iawn.

Tlodi plant

Mae tlodi plant wedi bod yn bryder parhaus i Gomisiynydd Plant Cymru oherwydd effaith tlodi plant ar fywydau'r plant a'r bobl ifanc hynny sy'n byw mewn tlodi. Amlygodd adroddiadau gan Barnardos a Achub y Plant yn gynnar yn 2007 niferoedd y plant a phobl ifanc sydd â theuluoedd tlawd. Amlygodd yr adroddiadau hyn hefyd beth y mae hyn yn golygu i fywydau plant a phobl ifanc sy'n rhan o'r teuluoedd hyn.

Er bod graddfeydd tlodi plant wedi gwella ers y 1990au, amcangyfrifodd Sefydliad Joseph Rowntree bod tua

28% o blant yng Nghymru'n profi tlodi a bod y plant hynny sy'n byw mewn cartrefi di-waith neu gyda rhieni anabl yn fwy tebygol o brofi tlodi na phlant eraill.

Mae polisiâu'r Llywodraeth yn canolbwyntio ar ardaloedd sydd â dwysedd amddifadedd uchel, sydd yn anochel, yn rhwystro plant sy'n byw mewn cymunedau trefol neu wledig eraill rhag derbyn gwasanaethau cefnogi targedig. Y llynedd, soniodd yr adroddiad gwerthuso interim ar Cymunedau'n Gyntaf bryderon am danwariant posibl o fewn cyllidebau Cymunedau'n Gyntaf. Dyma un o brif gyllidebau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer delio â thlodi plant, ac mae tanwariant yn amlwg yn effeithio ar brofiadau plant â phobl ifanc sy'n wynebu tlodi yn yr ardaloedd hynny.

Mae'n bwysig bod LICC yn gweithredu'r holl raglenni sy'n canolbwyntio ar leihau graddfeydd tlodi plant, gan gynnwys Flying Start a Cymorth, yn llawn ac mewn dull rhesymol. Maen nhw hefyd angen cofleidio'n bositif y cyfraniad y gall gwasanaethau cyffredinol wneud i ddelio â'r broblem hon, ac i ddosbarthu newidiadau a fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar fywydau plant, er gwaetha p'un ai ydyn nhw'n byw mewn ardal ddaearyddol dargedig neu mewn grŵp dynodedig. Mae ffactorau fel llefydd gwledig a'r stigma sy'n gysylltiedig â thlodi'n golygu nad yw plant a theuluoedd yn aml yn derbyn y gefnogaeth sydd ei angen arnyn nhw.

Mae'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar Blant Bregus a Tlodi Plant a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn dangos bod LICC wedi ymrwmo i sicrhau nad yw plant yng Nghymru dan anfantais gan tlodi. Er bod y rhan fwyaf o'r atebion polisi yn parhau i fod gyda Llywodraeth ganolog San Steffan, mae rhaid i LICC barhau â'i ymrwymiad i ostwng tlodi plant drwy weithredu'r cynllun gweithredu tlodi plant yn llawn.



Plant a phobl ifanc sy'n edrych am loches

Mae plant a phobl ifanc sy'n edrych am loches yng Nghymru ymysg ein plant tlotaf a'n plant mwyaf bregus. Nid yw lloches a mewnfudo wedi ei ddatganoli i Gymru er bod yr holl brif wasanaethau y byddai plentyn eu hangen o bosib, fel iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol wedi eu datganoli i Gymru. Mae agwedd Llywodraeth Cynulliad Cymru tuag at blant sy'n edrych am loches yng Nghymru yn llawer mwy hynaws a chynhwysol na Llywodraeth y DU, ond maen nhw'n parhau i ddiodeff triniaeth ofnadwy a thoriad o'u hawliau dynol. Rhywbeth sy'n rhan ganolog o fethiant Llywodraeth y DU i ddiogelu triniaeth deg i blant sy'n ceisio lloches yng Nghymru yw eu hamheuaeth o'r CCUHP, sy'n galluogi i bolisi a deddfwriaeth ar fewnfudo ddiystyru deddfwriaeth ryngwladol a mewnwladol sy'n ymwneud â phlant. Dylid cael gwared â'r amheuaeth yma a dylai pawb ofyn am gael gwared â hyn.

Fe gynigais i argymhellion, ynghyd â Chomisiynwyr eraill y DU, yn uniongyrchol i Lywodraeth y DU ynghylch eu model lloches arfaethedig newydd. Rydym ni'n credu'n gryf nad yw'r cynigion i roi pwysau ar blant sydd ar eu pen eu hunain i adael gofal maeth pan maen nhw'n 16 mlwydd yn ddiogel ac er lles iddyn nhw. Dylai unrhyw benderfyniad ar ble dylai plentyn fyw fod yn seiliedig ar asesiad llawn o'u hanghenion fel sy'n ofynnol gan Fframwaith Asesu Cyffredinol LICC. Dylai gwarcheidwyr cael eu hapwyntio i ofalu am eu lles ac mae'r asesiad oedran arfaethedig yn annibynadwy ac yn ymosodol, a dylai gael ei ddisodli gan banel amlasiantethol dros gyfnod o amser.

Dylid rhoi terfyn ar y weithred greulon o alltudio a charcharu plant. Nid oes ffordd mwy eglur o egluro'r effaith ar blentyn na drwy eiriau ei hunan. Daeth 'A' i Gymru bedair blynedd yn ôl yn 9 mlwydd oed, ac roedd wedi cael ei drawmateiddio ar ôl cael ei orfodi gan yr heddlu i'w gwylio nhw'n crogi ei dad-cu yng ngardd y teulu. Ym mis Mawrth, fe anfonwyd ei fam a'i chwaer, a aned yng Nghymru, i Ganolfan Gadw Yarlswood. Fe anfonodd ei stori ataf i



Diwrnod dychrynlyd ein teulu

Dyma fy stori i o'r Mewnfuldo pan gyrhaeddodd nhw fy nhŷ i'n y bore.

Ar ddydd Sul ar ôl fy ngêm bêl-droed i, fe ddes i adref, fe ymolchais a gwneud popeth yn barod ar gyfer ysgol, fy nillad yn barod, pacio fy mag yn barod. Yna, y bore wedyn, pan ddeffrod fy mam fi ar gyfer ysgol, fe glywais gnoch ar ein drws. Yna, fe welodd fy mam drwy'r ffenestr, a gwelodd naw o bobl o Fewnfudo. Yna, dywedodd wrthaf i i ddeffro dad a dweud wrtho bod Mewnfuldiad yma a dweud wrtho i fod yn barod i fynd i redeg. Felly, fe redodd dad i ffwrdd achos os ydyn nhw'n mynd a fo nol i fy ngwlad i, byddan nhw'n lladd dad fel wnaethon nhw ladd tad-cu. Felly, wedyn, dyma mam yn agor y drws ond roedd ofn ar mam a pan wnaeth hi agor y drws, llewgydd a disgynnodd i'r llawr a wedyn gwnaeth y nyrs rhywbeth i'w deffro hi. Yna, dywedodd Mewnfuldo wrthaf i a fy chwaer i bacio rhywfaint o ddilaliddiddym ni. Yna, aeth yr heddlu a ni i ffwrdd i'r orsaf heddlu a'n rhoi ni mewn fan gyda cawelli o amgylch y fan i gyd. Roedd fy chwaer yn sâl pumgwaith ar y daith achos nad oedd hi wedi byta brecwast. Yna, roedd fy chwaer a fi angen toiled achos roeddem ni'n gyrru am bron i bedwar a hanner awr ond dydyn nhw ddim yn gadael i ni achos maen nhw'n meddwl y byddan ni'n rhedeg i ffwrdd ...

Fe ddigwyddodd hyn ar ddydd Llun, 5ed Mawrth.

Gan A

12 mlwydd oed

Mae A a'i chwaer fach ill dau'n parhau i ddioddef o drawma'r profiad yma.

Mae plant hŷn sydd wedi bod yng Nghymru am flynyddoedd yn sôn wrthyf am effaith y gyfraith mewnfuldo arnyn nhw. Maen nhw wedi gweithio'n galed yn yr ysgol ac yn y gymuned ond yn 18 mlwydd oed, er gwaethaf canlyniadau Safon Uwch gwyb, cant eu hwynebu gyda ffioedd myfyrwyr tramor anfforddiadwy er mwyn parhau â'u hastudiaethau yng Nghymru. Hefyd, ni chaniateir iddyn nhw weithio. Rwy'n eirioli gyda Phrifysgol Cymru i'w trin nhw'n hafal a chodi ffioedd myfyrwyr gartref arnyn nhw. Dylai LICC ddilyn esiampl Prif Weithredwr Yr Alban a rhoi terfyn ar yr arfer ffafriol gwahaniaethol yma a chodi ffioedd cartref a dyfarnu lwfans cynhaliaeth addysg i'r bobl ifanc hyn.

" Mae'r cyngor yn helpu pawb
mae'n gweithio'n gret "



Mae staff iechyd yn gofyn am gymorth pan nad yw plant, gan gynnwys babanod, yn cael y driniaeth iechyd maen nhw'u hangen yng Nghymru oherwydd Rheoliadau Ffioedd Ymwelwyr Tramor. Rheoliadau Cymreig yw'r rhain sy'n cyfyngu'r hawl i blant na chafodd loches i gael gofal iechyd am ddim. Mae hyn yn greulon ac yn erbyn eu hawliau. Dylai'r holl blant yng Nghymru gael yr un hawl i dderbyn gofal iechyd am ddim ac rwy'n galw ar LICC i adolygu'r Rheoliadau hyn ar unwaith.

Presenoldeb ac ymddygiad yn yr ysgol

Cydnabyddod Llywodraeth Cynulliad Cymru'r angen am edrych eto ar y materion hyn, a sefydlon nhw Adolygiad Ymddygiad a Phresenoldeb Cenedlaethol (NBAR). Mae hon yn fenter ragorol, ac rydym yn mynychu fel arsyllwyr.

Mae'n dod yn fwy amlwg bod angen dull newydd a gwahanol o wella presenoldeb ac ymddygiad yn yr ysgol. Yn amlwg, nid yw defnyddio'r ataliad eithaf o eithrio parhaol i fynd i'r afael ag ymddygiad problemus mewn ysgolion wedi gweithio. Er bod gostyngiad bychan yn 2005-2006 yn nifer y gwaharddiadau yng Nghymru, maen nhw'n parhau'n uwch nag yn yr wyth blynedd blaenorol. Mewn ymgais i sicrhau bod plant yn mynd i'r ysgol ac yn ymddwyn yn iawn, mae'n ymddangos yn wrthnysig mai'r ataliad eithaf yw deud wrthyn nhw i beidio dod i'r ysgol!

Beth sydd hyd yn oed fwy pryderus, yw'r cynnydd mewn gwaharddiadau answyddogol o'r ysgol - ble gofynnir i rieni gadw eu plant gartref heb y gwiriadau a'r cydbwysau cyffredin o'r weithdrefn normal, swyddogol ar gyfer gwahardd disgyblion, na'r cyfle i dderbyn y gefnogaeth ychwanegol y mae disgyblion ei angen. Rydym ni'n credu bod yr ymarfer yma'n digwydd ymhobman, er gwaethaf cyfarwyddyd LICC, ac rydym ni wedi gwneud argymhellion i'r awdurdodau addysg leol a LICC i helpu i ddod â'r ymarfer yma i ben. Rydym ni'n edrych ymlaen at dderbyn argymhellion yr Adolygiad Ymddygiad a Phresenoldeb Cenedlaethol a'u gweithrediad llawn.

Hysbysu plant a phobl ifanc am eu hawliau

Eleni yw'r flwyddyn y mae'r Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn dod i oed. Mae'r Confensiwn yn 18 mlwydd oed, eto mae rhai ymchwil yn cynnig mai dim ond 8% yn unig o bobl ifanc sydd wedi dysgu am y CCUHP yng Nghymru. Mae tystiolaeth gynnar yn dangos yr effaith positif y gall y wybodaeth yma gael ar blant, ar ysgolion ac ar y gymuned ehangach.

Pwynt cychwynnol yn unig yw dysgu am y CCUHP o fewn y fframwaith ABCh. Mae angen ei ledaenu a'i gynnwys yn rhaglenni cychwynnol hyfforddi athrawon a hyfforddiant parhaus i athrawon, yn ogystal ag i bobl broffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Dylai adnoddau fod ar gael i athrawon i'w galluogi nhw i ddysgu plant yn effeithiol am eu hawliau. Mae gan bawb gyfrifoldeb i sicrhau bod plant a phobl ifanc ac oedolion, yn enwedig y rhai hynny sy'n gweithio gyda phlant, yn ymwybodol o'r CCUHP.



Gofal cynenedigol

Ynghyd â BLISS ag uwch nyrsys cynenedigol, rwy'n pryderu am y gohiriad mewn cyhoeddi a gweithredu'r adolygiad cynenedigol yng Nghymru. Rwy'n ymwybodol bod cyllido yn Lloegr wedi arwain at sefydlu a datblygu rhwydweithiau clinigol wedi'u rheoli fel eu bod ar gael ac wedi'u cydlynu ers 2004. Ar hyn o bryd, nid oes gan y gwasanaeth yng Nghymru ddigon o arian, nid yw wedi datblygu, nid oes ganddo ddigon o adnoddau, ac mae'n ddibynnol ar rwydweithiau anffurfiol. Yn aml, mae'r sefyllfa yma'n arwain at fabanod yn cael eu cludo allan o Gymru am filltiroedd (e.e. Stoke on Trent, Plymouth, Taunton ayb) er mwyn derbyn y gofal arbenigol sydd ei angen arny'n nhw. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gwblhau a chyhoeddi'r adolygiad ar y gwasanaeth arbenigol yma heb unrhyw ohiriad pellach.

Gofal iechyd parhaus

Yn aml, mae plant a phobl ifanc yn cael eu gwahardd rhag dychwelyd yn ôl at eu teulu a'u cymuned o'r ysbyty oherwydd bwlch polisi mawr gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae rhaid i fabanod a enir gydag anghenion meddygol arbennig hefyd aros mewn unedau gofal arbennig i fabanod am gyfnodau hir o amser nes y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud am sut i ariannu eu hanghenion parhaol am driniaeth. Os ydyn nhw angen cefnogaeth feddygol barhaus neu driniaeth yn eu cartrefi a'u cymunedau, ni ellir gosod unrhyw fformiwla polisi neu griteria sy'n sicrhau eu bod nhw'n derbyn y gofal sydd ei angen arny'n nhw. Weithiau, canlyniad hyn yw bod rhaid iddyn nhw aros am gyfnodau hir o amser ar wardiau ysbytai, neu fentro mynd adref heb gael y gefnogaeth maen nhw angen. Soniwyd wrthym ni mai rhan o'r rheswm am y gohiriad mewn gosod y polisi yma yw'r ffaith ei fod angen cael ei gysylltu gyda'r polisi i oedolion, sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd. Dylid cyhoeddi'r polisi gofal parhaus i blant heb unrhyw oediad pellach.

Ar hyn o bryd, nid oes gan ofalwyr a rhieni lawer o ddewis ynghylch pwy fydd yn darparu gofal unwaith bod anghenion wedi cael eu hasesu. Yn gyfreithiol, nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer taliadau uniongyrchol i ofalwyr, a chyfyngir y dewis o ddarparwr gwasanaeth gan y cyrff cyllido. Dylid cyfeirio at hyn yn y polisi newydd fel bod plant a phobl ifanc yn derbyn y gofal gorau posib.

Strategaeth TGCh i ysgolion a defnyddio technoleg yn ddiogel

Gyda'r cynnydd parhaus mewn defnyddio'r rhyngwrwd a thechnolegau symudol a chynnydd mewn digwyddiadau bwlio seiber, mae addysgu plant a phobl ifanc am ddefnyddio technoleg yn ddiogel ac yn gyfrifol yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Fe ymatebom ni i'r strategaeth TGCh drafft i ysgolion, gan godi materion am bwysigrwydd addysgu plant yn ogystal ag oedolion am ddiogelu eu hunain wrth ddefnyddio technolegau newydd. Rydym ni'n pryderu'n arbennig am y diffyg datblygiad o fewn y cwricwlwm TGCh arfaethedig i blant ddefnyddio'r rhyngwrwd o Lefel 3 ymlaen. Dan y strategaeth arfaethedig, nid oes disgwyl datblygu sgiliau pellach ar ddefnyddio'r Rhyngwrwd ar gyfer plant ysgol gynradd i flwyddyn 11 ysgol uwchradd


" Mae gan fy ffrind syndrom Down ac mae pobl yn bwlio hi. Dwi'n meddwl dylai fod lle dawel iddi hi eistedd. "



Sefydlwyd y gyfadran e-Cymru o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithio gydag adrannau a phartneriaid eraill i gryfhau Cymru ar y llwyfan TGCh o amgylch y byd. Y ni a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar TGCh yng Nghymru o'r gyfadran hon Tuag at e-Gymru: Ymgynghoriad strategol yn 2006. Mae'n angenrheidiol bod strategaeth diwygiedig Tuag at e-Gymru a'r strategaeth TGCh yn unioni yn eu dull strategol o addysgu'r holl blant a phobl ifanc i ddefnyddio technoleg yn ddiogel ac yn gyfrifol. Mae addysgu sut i ddefnyddio TGCh hyd yn oed yn fwy pwysig byth o ystyried y cynigion a gafwyd o fewn "One Wales" i gael gliniadur am ddim i bob plentyn ysgol yng Nghymru. Rydym ni'n edrych ymlaen at gyhoeddi'r strategaethau diwygiedig, a gweld sut fydd y rhain yn cyfrannu tuag at gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel wrth ddefnyddio technoleg, ac rydym ni'n annog LICC i barhau i fuddsoddi yn y maes yma.



parch
dylanwadu
hawliau
gwranddo
cynnwys
lleisiau



Cynigion i aildrefnu ysgolion a diffyg parch ar gyfer barnau plant

Mae Erthygl 12 o'r CCUHP yn nodi bod gan blant a phobl ifanc yr hawl i ryddid barn ynghylch yr holl faterion sy'n effeithio arny'n nhw ac mae Erthygl 13 yn sicrhau bod gan blant hawl i ryddid llafar ac i dderbyn gwybodaeth. Ar hyn o bryd, mae penderfyniadau ynglŷn â chaw ac uno nifer o ysgolion yn wynebu Awdurdodau Addysg Leol ar draws Cymru. Yn aml, mae'r penderfyniadau hyn yn achosi dadl fawr o fewn cymunedau lleol; fodd bynnag, nid yw'n ymddangos fel bod plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried fel bod yn aelodau o'r cymunedau hyn. Yn aml, maen nhw'n ysgrifennu atom ni yn mynegi eu pryderon a'u barnau am y cynigion.

Nid yw cyfarwyddyd LICC yn cynnwys plant fel un o'r categorïau o bartïon â diddordeb. Mae hyn yn golygu bod angen cael safbwyntiau a barnau gan rieni a phreswylwyr eraill ond nid y plant yn yr ysgolion. Mae addysg yn rhan bwysig o fywyd plentyn a bydd cynigion i gau neu uno eu hysgolion yn effeithio arny'n nhw. Dylai'r cyfarwyddyd gael ei adolygu i adlewyrchu darpariaethau'r CCUHP ac i alluogi plant a phobl ifanc i gael rhywun i wrando ar eu barn ar newidiadau pwysig sy'n gysylltiedig â'u profiad addysgol, gan gynnwys eu rhieni.

Cymryd olion bysedd mewn ysgolion

Mae sawl ysgol yng Nghymru eisoes wedi gosod systemau sy'n sganio olion bysedd disgyblion er mwyn cofrestru neu i dalu am brydau ysgol neu hyd yn oed i fenthyl llyfrau llyfrgell. Er bod gan rai systemau o'r fath rai manteision i'r ysgolion yn nhermau cyflymu sianeli gweinyddol, rwy'n pryderu am yr effaith o ddefnyddio technoleg o'r fath ar blant a phobl ifanc.



Mae cyfarwyddyd clir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn nodi y dylai ysgolion hysbysu ac ymgynghori'n llawn gyda chymuned yr ysgol, rhieni a disgyblion cyn gosod a defnyddio systemau o'r fath ar gyfer casglu data personol. Byddai hyn yn galluogi rhieni a disgyblion i fynegi eu barn, ac i'r ysgol egluro pan ei bod yn ystyried defnyddio technoleg o'r fath.

Yn hytrach na defnyddio'r sganiau olion bysedd, mae gan lawer o'r systemau ffyrdd eraill o adnabod disgyblion, er enghraifft, defnyddio cardiau swipecard.

Casglu a chadw DNA

Mae'r heddlu'n cymryd samplau DNA gan nifer fawr o blant gan eu bod nhw o dan gyhuddiad o fod wedi achosi trosedd. Yn yr un modd, gellir cymryd samplau DNA gan blant er mwyn eu dileu nhw fel plant drwgdybiedig. Cedwir y samplau hyn wedyn, p'un ai a yw plant yn cael eu cyhuddo o drosedd troseddol neu beidio. Amcangyfrifir bod yr heddlu wedi cadw samplau DNA 24,000 o blant yn y DU sydd erioed wedi cael eu darganfod yn euog o droseddu. Drwy gydweithrediad gyda Chomisiynwyr Plant eraill y DU, byddwn ni'n yn ystyried y goblygiadau hawliau dynol mewn cysylltiad â'r ymarfer yma.

Dyletswyddau, pwerau a swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru

Tua chwe blynedd yn ôl, fe dorrodd Cymru dir newydd yn y Deyrnas Unedig drwy sefydlu Comisiynydd Plant Cymru. Mae'r pwerau estynedig y Cynulliad o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda'r cyfle unwaith eto i arwain drwy esiampl, drwy adolygu pwerau'r Comisiynwyr Plant er mwyn sicrhau eu bod nhw'n arwain ymarfer da ar draws y byd. Rwyf wedi sôn am y gwendidau sy'n bodoli ar hyn o bryd ac am sut y gellid newid y gyfraith i uchafu'r ffyrdd y gallwn ni hyrwyddo ac amddiffyn hawliau a lles plant a phobl ifanc i'r eithaf, o'u cymharu nhw gyda Chomisiynwyr Plant ag Ombwdsmyr eraill, cyfarwyddyd rhyngwladol a'n profiad ni ein hunain.

"Mae fy mam yn anabl ac rydym ni'n cael ein bwlio o hyd ac mae nhw'n gwneud hwyl am ei phen hi gan fod clefyd y siwgr arni hi."



Mae diwygiadau arfaethedig yn cynnwys ehangu'r ystod gyfan o swyddogaethau er mwyn cynnwys yr holl gyrff cyhoeddus a phreifat yng Nghymru, gan gynnwys y cyrff cyhoeddus hynny sy'n darparu gwasanaethau nad ydyn nhw wedi eu datganoli, y gallu i ofyn am wybodaeth gan bob un sy'n dod o fewn y mandad ar gyfer cyflawni unrhyw rai o'r ffwythiannau, y grym i ddod â chamau cyfreithiol gerbron unrhyw lys neu dribiwnlys, neu ymyrryd neu gynorthwyo â chamau fel hyn, yn debyg i Gomisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon, a grym clir i gydweithredu a chydweithio â Chomisiynwyr eraill y DU. Bydd diwygiad y ddeddfwriaeth gyfredol yn darparu'r Comisiynydd Plant nesaf gyda'r teclynnau angenrheidiol i hyrwyddo hawliau a lles plant Cymru.

" Mae ganddom ni gyngor ysgol ond teimlaf nad yw'r cyngor yn ddigon cryf, a nid yw plant yn dangos diddordeb ynddo "

parch
dylanwadu
hawliau
gwranddo
cynnwys
ffeithiau
dysgu
lleisiau
cyfartal
cefnogaeth



Adran 6

Crynodeb o wybodaeth ariannol

Mae'r wybodaeth ariannol canlynol yn seiliedig ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Adnoddau llawn Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddiweddodd 31ain Mawrth 2007. Cipolwg yw'r adran hon ac nid yw'n cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol i alluogi pobl i ddeall canlyniadau a sefyllfa Comisiynydd Plant Cymru fel y byddai adroddiad a chyfrifon llawn yn darparu. Gosodwyd y rhain o flaen Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Senedd) ac mae'n cynnwys y wybodaeth fanwl sy'n ofynnol drwy gyfraith a'r Llawlyfr Adrodd Ariannol. Gellir cael copi o'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon am ddim, drwy ysgrifennu at y Comisiynydd yn eu swyddfa gofrestredig:

Tŷ Ystumllwynarth
Ffordd Pheonix
Llansamlet
Abertawe
SA7 9FS

O Dan Atodlen 2 Deddf Safonau Gofal 2000, mae gofyn i Gomisiynydd Plant Cymru gadw cofnodion cyfrifon cywir ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â chyfeiriad ar sail cyfrifon fel y pennwyd gan y Cynulliad,

yn rhoi manylion adnoddau a gafwyd, a ddaliwyd neu a waredwyd yn ystod y cyfnod, a'r defnydd o adnoddau gan Gomisiynydd Plant Cymru yn ystod y cyfnod.

Pwyllgor Archwilio

Mae'r Comisiynydd wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio i ddarparu cyngor a sicrwydd mewn perthynas â threfn lywodraethol gorfforaethol, rheoli risg a rheoli o fewn rôl y Comisiynydd a digonolrwydd y trefniadau archwilio mewnol ac allanol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio'n cyfarfod o leiaf pob dwy flynedd ac mae'n cynnwys uwch swyddogion y Comisiynydd a thri aelod annibynnol, sef:

- Brian Charles, Cadeirydd y Pwyllgor – cyn gadeirydd Dŵr Cymru/Welsh Water;
- Tom Cassidy - Cyn Prif Weithredwr CADW; a
- John Cory – Cyn Gyfarwyddwr Cyllid Bwrdd Croeso Cymru

Uwch swyddogion

Bu'r bobl canlynol yn gweithredu fel yr Uwch Dîm Rheoli yn ystod y flwyddyn:

Peter Clarke	Comisiynydd Plant Cymru & Swyddog Cyfrifon hyd at 21 Ionawr 2007
Maria Battle	Dirprwy Gomisiynydd Plant & Swyddog Cyfrifon o 22 Ionawr 2007
Rhian Davies	Is Gomisiynydd (Gwerthuso Polisi a Gwasanaeth)
Sara Reid	Is Gomisiynydd (Cyfathrebu a Chyfranogi)
Elaine Cloke	Pennaeth dros dro Cyfraith ag Ymchwiliadau o 22 Ionawr 2007
Tony Evans	Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol o 15 Mai 2006

Cyllido

Mae Comisiynydd Plant Cymru'n annibynnol o Lywodraeth Cynulliad Cymru ond mae'n cael ei gyllido ganddo. Yn 2006-07, derbyniodd y Comisiynydd £1.6 miliwn (2005-06: £1.4 miliwn) i noddi gweithgareddau. Ers sefydlu rôl y Comisiynydd Plant, mae swm yr arian a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynyddu gan bwyll bach i gydweddu cynnydd yn llwyth gwaith y Comisiynydd.

Fe dderbynion ni gyllid o £296,250 yn 2004-05 a oedd yn gysylltiedig â'r cyfnod 2005-06.

Fformat y cyfrifon

Darparwyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Pharagraff 7(2) Atodlen 2 Deddf Safonau Gofal 2000 a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Gellir cael copi o'r Cyfarwyddyd hwnnw gan Comisiynydd Plant Cymru, Tŷ Ystumllwynarth, Ffordd Pheonix, Llansamlet, Abertawe SA7 9FS.

Darparwyd y cyfrifon hyn ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2006 i 31 Mawrth 2007 ac maen nhw'n adlewyrchu asedau, dyledion a chanlyniad adnoddau'r Comisiynydd Plant.

Canlyniadau am y flwyddyn

Mae'r Datganiad Costau Gweithredu'n dangos cost gweithredu net o £1,581,000 (2005-06: £1,525,000) ar gyfer y cyfnod, sy'n dangos cynnydd o 3.6 y cant yng ngwariant net o'i gymharu â 2005-06. Mae balans y gronfa gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn £176,000 (2005-06: £118,000)

Rhwng Ebrill 2002 a Mawrth 2007, mae staff y Comisiynydd wedi cynyddu o 22 (cyfatebol i lawn amser) i 25 (cyfatebol i lawn amser) i adlewyrchu'r cynnydd yn llwyth gwaith y Comisiynydd.

Apwyntio uwch swyddogion

Apwyntiwyd y Comisiynydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a dechreuodd ei swydd ar 1 Mawrth 2001. Roedd yr apwyntiad am uchafswm o 7 mlynedd, a pharhaodd yn ei swydd hyd ei farwolaeth ar 21 Ionawr 2007. Mae Maria Battle wedi cyflawni ei rôl ers 22 Ionawr 2007.

Cychwynnodd yr uwch swyddogion oedd ar ôl ei swyddi rhwng Ionawr 2001 a Chwefror 2007, ac fe'u hapwyntiwyd gan y Comisiynydd o dan Atodlen 2 paragraff 4 Deddf Safonau Gofal 2000.

Cyfleoedd cyfartal

Ystyriwyd yr holl geisiadau am gyflogaeth gyda Chomisiynydd Plant Cymru ar y telerau y dylai'r holl ymgeiswyr sy'n ceisio am swydd gael cyfle cyfartal am gyflogaeth a dyrchafiad ar sail eu gallu, eu cymwysterau a'u haddasrwydd ar gyfer y gwaith.

Ni ddylai unrhyw ymgeisydd sy'n ceisio am swydd neu gyflogwr dderbyn triniaeth lai ffafriol ar sail ras, lliw, rhyw, cyfeiriad rhywiol, oedran, statws priodasol, anabledd, crefydd, cyfrifoldebau teuluol/domestig neu batrymau gwaith, a ni ddylai unrhyw unigolyn fod o dan anfantais oherwydd amodau neu ofynion sydd ddim yn cael eu hystyried fel bod yn haeddiannol.

Polisi talu

Dan Ddeddf Hwyr-dalu Dyledion Masnach (Llogau) 1998, mae gofyn i Gomisiynydd Plant Cymru dalu anfonebau darparwyr nad oes dadl yn eu cylch o fewn 30 diwrnod o dderbyn nwyddau neu wasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf. Cyflawnodd Comisiynydd Plant Cymru 99 y cant o'r holl daliadau a wnaethpwyd yn ystod y cyfnod 2006-07 (87 y cant yn 2005-06) Ni dalwyd unrhyw log oherwydd taliadau hwyr.

Archwilwyr

Caiff cyfrifon Comisiynydd Plant Cymru eu harchwilio a'u tystio gan Archwilwyr Cyffredinol Cymru yn unol â pharagraff 9 Atodlen 2 Deddf Safonau Gofal 2000 (Nodyn 8).

Apwyntiwyd Bentley Jennison ym mis Chwefror 2007 i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol i'r Comisiynydd, fodd bynnag, mae eu gwaith wedi rhedeg o'r cyfnod 1 Ebrill 2006 i 31 Mawrth 2007.

Yn ystod y cyfnod, ni roddwyd tâl i'r archwilwyr am waith nad oedd yn ymwneud ag archwilio.

Nodau ac amcanion Comisiynydd Plant Cymru

Nod

I ddiogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant a gweithredu ei holl swyddogaethau gan ystyried confensiwn y CU ar hawliau'r plentyn.

	2006-2007			2005-2006		
	Crynswth £000	Incwm £000	Net £000	Crynswth £000	Incwm £000	Net £000
Amcan:						
Amcan 1	759	-	759	787	-	787
Amcan 2	234	-	234	235	-	235
Amcan 3	70	-	70	55	-	55
Amcan 4	82	-	82	52	-	5
Amcan 5	19	-	19	18	-	18
Amcan 6	262	-	262	247	-	247
Amcan 7	38	-	38	40	-	40
Amcan 8	117	-	117	91	-	91
Cyfanswm	1,581	-	1,581	1,525	-	1,525

parch dylanwadu
cynnwys
hawliau
gwrando

Roedd amcanion y Comisiynydd fel a ganlyn:

1. I hyrwyddo hawliau a lles plant, ac i sicrhau bod plant a phobl ifanc Cymru'n ymwybodol o fodolaeth y Comisiynydd, o'i rôl a'i bwrpas; lleoliad ei swyddfeydd; y ffordd y gallan nhw gyfathrebu/cael gafael ar y Comisiynydd a'i staff a hawliau plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai hynny a osodwyd yng Nghonfensiwn y CU ar hawliau'r plentyn; i annog cyfathrebu/mynediad; ac i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru'n ymwybodol o hawliau plant a phobl ifanc.
2. I sicrhau y cesglir barnau plant a phobl ifanc ar sut y dylai'r Comisiynydd weithredu ei swydd, ac ar gynnwys rhaglen waith blynyddol y Comisiynydd.
3. I adolygu a monitro trefniadau cwynion, eiriolaeth a chyngor a datgelu camarfer, i ganfod p'un ai a ydyn nhw'n effeithiol mewn diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant ac i ba raddau y maen nhw'n gwneud hyn.
4. I adolygu a monitro effaith ymarfer neu ymarfer arfaethedig unrhyw weithred Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar blant ac/neu gyrff a restrir yn Atodlen 2a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001.
5. I archwilio achosion plant arbennig sydd yn derbyn neu sydd wedi derbyn gwasanaethu rheoleiddio gan gyrff a restrir yn Atodlen 2a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001.
6. I ddarparu neu drefnu cyngor, cynrychiolaeth neu gymorth arall i helpu plentyn i wneud cynwys ffurfiol neu i gyflwyno achos i ddarparwr gwasanaeth; ac/neu unrhyw weithrediadau sy'n ymwneud â darpariaeth y gwasanaethau, os yw'r gweithrediadau, ym marn resymol y Comisiynydd yn berthnasol i faterion sydd â defnydd mwy cyffredinol neu sy'n berthnasol i hawliau a lles plant Cymru. I ddarparu cyngor a gwybodaeth i unrhyw un.
7. I gadw pwerau'r Comisiynydd a'r effaith ar blant o dan arolygaeth
8. I ystyried a gwneud argymhellion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch unrhyw fater sy'n effeithio ar hawliau a lles plant yng Nghymru.

Adolygir amcanion i sicrhau eu bod nhw'n adlewyrchu rôl a phwrpas y Comisiynydd. Mae dosrannu'r costau gweithredu yn ôl amcanion wedi cael ei wneud mewn perthynas â'r symiau cymharol o amser a dreuliwyd gan staff ar yr amcanion uchod.



**EICH LLAIS
EICH DEWIS
EICH BYWYD**

**CYNGOR A CHYMORTH
RHADFFÔN A RHADTECST**

**FFÔN: 0808 801 1000
TECST: 80800** Dechreuwch y neges gyda COM

EBOST: cyngor@complantcymru.org.uk

**Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales**



Cofio Peter

Bu farw Peter Clarke, Comisiynydd Plant cyntaf Cymru, ar 21ain Ionawr 2007. Crewyd bwrdd cofa arlein fel bod pawb oedd yn ei adnabod neu yn cydweithio gydag e yn gallu cofnodi eu hatgofion o Peter. Dyma ychydig o'r negeseuon sydd yn ymddangos ar www.dathlupeter.org.

Eiriolwr gwych dros blant.
Byddwn yn gweld ei eisiau.



Ef oedd y Comisiynydd Plant cyntaf yn y DU, ac mae arnom ddyled anferth iddo am ei waith yn y rôl honno, am yr holl achosion y bu'n ymladd drostynt a'r modd y bu iddo amlygu llawer o faterion yr oedd pobl ifanc wedi tyrru ei sylw atynt. Gwnaeth ei ffrwydr i wella Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc, ei ymgynghra i sefydlu uned eiriolaeth genedlaethol, a'i waith i godi proffil tlodi plant a bwlio yng Nghymru, yn arbennig, gyfraniad prysig i wella bywyd llawer o bobl ifanc.

Hoffai disgyblion, staff a llywodraethwyr Ysgol St Christopher anfon cydymdeimlad diffuant at deulu Peter Clarke. Rydym yn drist iawn o glywed am farw Peter, ac rydym yn meddwl am ei deulu a'i gyfeillion agos ar yr adeg drist hon.

Carem gofnodi llawer o ddiolch am holl waith Peter dros hawliau plant yng Nghymru, yn enwedig dros y plant hynny oedd ag anghenion addysgol arbennig/uchwanegol.

Ni fydd ei waith arloesol yn swydd Comisiynydd Plant Cymru yn cael ei anghofio. Rydym yn diolch iddo ac yn dathlu popeth a gyflawnodd dros blant yng Nghymru, a hefyd ei allu arbennig i greu cysylltiad personol â phawb y cwrddai â nhw.



Roedd Peter yn ffrind gwirioneddol i blant a phobl ifanc Cymru. Roedd yn siarad â nhw ar yr un lefel, yn gwrrando ar eu sylwadau ac yn parchu eu barn. Roedd yn eiriol drostynt yn anrhydeddus, a bydd pawb a oedd yn ei adnabod yn gweld ei eisiau. Bydd ei gyfraniad unigryw fel Comisiynydd Plant cyntaf y DU yn cael ei gofio am byth.

Roedd yn ddyn gwirioneddol nodedig, un o'r cyntaf i godi llais dros blant, a bydd effaith ei waith yn parhau am flynyddoedd lawer. Bydd colled fawr ar ei ôl.



Mae Peter Clarke wedi gosod sylfeini cadarn, ac mae'n rhaid i ni adeiladu dyfodol ein plant arnynt. Roedd yn ddyn â phwrpas gwirioneddol, gweledigaeth ac uniondeb, plannodd wreiddiau ar gyfer tyfiant, ac o'r rhain bydd llawer o ganghennau gwahanol yn estyn allan at y rheiny sydd mewn trallod, gan eu cynnal mewn angen. Hwadu'n i'th lwch, Peter – gelli orffwrws gan wybod dy fod yn wir wedi gwneud gwahaniaeth.



Rwyf wedi bod yn gysylltiedig â'r swyddfa ers i Peter gael ei benodi, ac roeddwn yn ei ystyried yn ffrind. Ef oedd y Comisiynydd cyntaf o'i fath yn y DU, ac yn bendant mae wedi gosod y safon i eraill anelu ati. Bydd yn anodd cael hyd i rywun yn ei le.



Roedd yn ddyn arbennig iawn, oedd â chalon garedig, cynhesrwydd diffuant, ac awydd angerddol i wella sefyllfa plant a phobl ifanc yng Nghymru. Bydd colled fawr i pawb ar ei ôl, ac ni fydd Cymru'n gystal lle hebdo.



Bydd Peter bob amser yn cael ei gofio fel person gwyb a oedd yn credu'n angerddol bod rhaid gwella Hawliau Plant. Rydym i gyd yn gwybod bod yr argyhoeddiad hwnnw wedi gwneud gwahaniaeth i lawer o blant yng Nghymru ac yn y DU.



Roedd Peter yn bendant yn arloeswr. Yn ogystal a bod yn Gomisiynydd Plant cyntaf Cymru, ef oedd y cyntaf hefyd i lenwi swydd o'r fath yn y DU.

Ef wynebodd y gwaith anodd o sefydlu swyddfa'r Comisiynydd Plant o ddim, a bu'n gweithio'n ddiflino i ddatblygu ei swyddogaeth heriol fel eirolwr dros hanfau plant a phobl ifanc. Byddai bob amser yn rhoi'r pwys mwyaf ar wrando ar farn plant a phobl ifanc a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, ac yn derbyn ymateb, yn enwedig gan y llywodraeth ar bob lefel.

Gallai fod yn heriol a chadarn wrth ddatlawn achos plant, ond dyna oedd ei waith. Byddai bob amser yn cyflawni ei ddyletswyddau ag angerdd, ymroddiad ac ymrwymiad. Bydd llawer yn dilyn yn ôl ei draed. Gwnaeth gyfraniad anferth i fynyddau plant a phobl ifanc yng Nghymru yn ystod y chwe blynedd diwethaf, mae miloedd llawer wedi elwa o'i waith, a bydd hynny'n parhau yn y dyfodol.

Hoffem ddweud faint bydd plant a phobl ifanc Cymru yn gweld eisiau'r gŵr bonheddig caredig, trugarog ac ymroddedig hwn. Bydd yn anodd iawn llenwi'r bwlch y mae wedi'i adael.

Roedd yn ddyn teulu ymroddedig, yn ogystal â rhywun a oedd yn wir yn sefyll dros blant a phobl ifanc yng Nghymru. Bydd llawer yn gweld ei golli'n fawr.





Roedd ei ymroddiad
i blant Cymru yn
ddiamau. Bydd colled
fawr ar ei ôl.

Fe wnaethom ni sefydlu Cynllun Gwranddo
Gwreithredol i Gyfoedion gyda'n chweched
dosbarth 3 blynedd yn ôl. Roedd Peter yn
ddigon caredig i'n gwahodd i'r Cynulliad i
gwrrdd ag ef er mwyn i ni gael cyfle i esbonio'n
cynllun i helpu i ddileu bwllo yn yr ysgol.
Gwrandanodd arnom ni a'n helpu i roi trefn ar
ein syniadau er mwyn gwella'n cynllun. Rydym
yn dal i weithio gyda'n chweched dosbarth er
mwyn parhau a'r gwaith da a gychwynnwyd gan
y chweched dosbarth dair blynedd yn ôl.
Roedd yn eithriadol o garedig, gan annog y
myfyrwyr ac roedd yn hynod werthfawrogol o
bopeth yr oeddent yn ei wneud i helpu plant.
Roeddem yn drist iawn i glywed ei fod wedi
marw, ond rydym yn ddiolchgar iawn am gael
cwrdd ag ef a dysgu mwy am ei angerdd a'i
ymrwymiad i helpu pobl ifanc yng Nghymru.

Mae yna blant yng Nghymru
sydd wedi cael gwell bywydau
trwy ei ofal a'i waith, a rhaid
i ni wneud popeth o fewn ein
gallu i helpu i sicrhau nad yw
hynny'n cael ei anghofio,
ac i'w helpu i barhau.

"Roeddem ni'n teimlo ei fod yn ddyn smart
iawn ac yn gweddu'n berffaith i swydd
'Comisiynydd Plant Cymru' gan ei fod yn
ddyn oedd wirioneddol eisiau i blant fod yn
hapus a gweld tegwch i blant. Diolchwn am y
cyfle o gael ei gyfarfod."



Roedd Peter yn ddyn gofalgwr iawn,
ac ni fydd ei ymrwymiad i les
plant yn cael ei anghofio. Bydd colled
fawr ar ei ôl.